



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft

Is-ddeddfwriaeth arfaethedig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu  
Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

# Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft

## Cynulleidfa

Ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, sefydliadau'r trydydd sector ac unrhyw un arall â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.

## Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar God Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drafft Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r rheoliadau cysylltiedig.

## Camau l'w cymryd

Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol  
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
Cymru  
CF10 3NQ  
Ffôn: 03000 253 650  
e-bost: SENReforms@llyw.cymru



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeiriad y wefan  
<https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft>

**Dogfennau  
cysylltiedig**

*Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2018)*  
*Dogfen ymgynghori - Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2018)*  
*Dogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc (2018)*  
*Dogfen ymgynghori: hawdd ei ddeall (2018)*  
*Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni (2019)*  
*Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid (2019)*

## **Cynnwys**

|                                                                                                                         |    |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Rhagair y Gweinidog.....                                                                                                | 2  |
| Cyflwyniad .....                                                                                                        | 3  |
| Y fethodoleg .....                                                                                                      | 3  |
| Crynodeb.....                                                                                                           | 4  |
| Ymatebion .....                                                                                                         | 4  |
| Digwyddiadau i Randdeiliaid .....                                                                                       | 5  |
| Ymateb Llywodraeth Cymru.....                                                                                           | 7  |
| Y camau nesaf .....                                                                                                     | 9  |
| Crynodeb o'r ymatebion i Ran 1: Y Cod ADY drafft .....                                                                  | 10 |
| Crynodeb o'r ymatebion i Ran 2: Rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft Cymru .....                                         | 53 |
| Crynodeb o'r ymatebion i Ran 3: Y Rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft .....                                                 | 59 |
| Crynodeb o'r ymatebion i Ran 4: Plant sy'n derbyn gofal .....                                                           | 62 |
| Crynodeb o'r ymatebion i Ran 5: Effaith y cynigion.....                                                                 | 67 |
| Atodiad A: Dadansoddiad o'r ymatebion fesul cwestiwn .....                                                              | 70 |
| Atodiad B: Rhestr o'r ymatebwyr.....                                                                                    | 76 |
| Rhestr o Ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol' .....                                  | 76 |
| Rhestr o'r Ymatebwyr a ymatebodd i 'Y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ymgynghoriad i Blant a Phobl Ifanc' ..... | 89 |
| Rhestr o'r Ymatebwyr a ymatebodd i 'Y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol 'Hawdd ei Ddeall' .....                     | 90 |


## **Rhagair y Gweinidog**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft a'r is-ddeddfwriaeth y bwriedir ei gwneud o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae'r Rhaglen i Drawsnewid y System ADY yn rhan hanfodol o Genhadaeth ein Cenedl o ran addysg yng Nghymru, a'n huchelgais i greu system addysg gwbl gynhwysol lle bydd pob dysgwr yn cael ei ysbrydoli, ei ysgogi a'i gefnogi i gyflawni ei botensial. Dim ond drwy gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid y gallwn gyflawni hyn.

Felly rwy'n hynod o falch ein bod wedi cael cynifer o ymatebion i'r ymgynghoriad ac wrth fy modd â'r awydd i gyfrannu a welwyd gan amrywiaeth eang o bobl yn y digwyddiadau a'r gweithdai ysgogi rhanbarthol a gynhaliwyd ar gyfer plant, pobl ifanc a rhieni.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y sylwadau a fynegwyd yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu a mireinio'r Cod ADY a'r rheoliadau. Bydd eich cyfraniad gwerthfawr i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn creu Cod sy'n galluogi'r rhai sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n drylwyr o ran cyflwyno'r system newydd a gwella deilliannau addysgol i rai o'n plant a'n pobl ifanc fwyaf difreintiedig, ac i ymroi i hynny yn llwyr.



**Kirsty Williams AC**  
Y Gweinidog Addysg

## **Cyflwyniad**

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ('ADY'). Bydd y Ddeddf, y Cod a'r rheoliadau a wneir yn eu sgil yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anabledau dysgu sydd mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol<sup>1</sup> i Weinidogion Cymru baratoi Cod ar ADY ('y Cod ADY'). Caiff<sup>2</sup> y cod gynnwys canllawiau statudol ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac ynghylch unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, caiff<sup>3</sup> ac mewn rhai achosion rhaid<sup>4</sup> iddo osod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau) mewn cysylltiad â phenderfyniadau a chyfrifoldebau penodol o dan y Ddeddf.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft rhwng 10 Rhagfyr 2018 a 22 Mawrth 2019, yn unol â'r gofyniad i Weinidogion Cymru wneud hynny cyn ei gyhoeddi na'i adolygu<sup>5</sup>.

## **Y fethodoleg**

Gofynnwyd 65 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori<sup>6</sup> a oedd yn ymwneud â'r pum thema a ganlyn:

1. Y Cod ADY drafft;
2. Rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft Cymru;
3. Y Rheoliadau Cydlynwyr ADY drafft;
4. Plant sy'n derbyn gofal; ac
5. Effaith y cynigion.

Ochr yn ochr â'r brif ddogfen ymgynghori, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn o'r ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc<sup>7</sup> a fersiwn hawdd ei ddeall<sup>8</sup>. Roedd y ddau yn gofyn pymtheg o gwestiynau ar agweddau o'r Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn fel is-benawdau oddi tan y cwestiynau cyfatebol yn y brif ddogfen ymgynghori.

---

<sup>1</sup> Adran 4(1) o'r Ddeddf

<sup>2</sup> Adran 4(2) o'r Ddeddf

<sup>3</sup> Adran 4(5) o'r Ddeddf

<sup>4</sup> Adran 4(6) o'r Ddeddf

<sup>5</sup> Adran 5(1) o'r Ddeddf

<sup>6</sup> [Dogfen Ymgynghori ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft](#)

<sup>7</sup> [Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft](#)

<sup>8</sup> [Dogfen Ymgynghori ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft: Ymatebion i'r ffurflen hawdd ei deall](#)

## Crynodeb

Gan fod y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig yn ymdrin ag amrywiaeth anferth o bynciau gwahanol, roedd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, o reidrwydd, hefyd gwmpas eang, ac roedd yn amrywio'n helaeth o ran barn a'r maes dan sylw. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd fesul cwestiwn. Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad o'r deilliant cyffredinol mewn perthynas â phob cwestiwn ie/na a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r atebion yn rhai cadarnhaol i 34 o'r 60 cwestiwn a oedd yn cynnwys dewisiadau 'ie', 'na' a 'ddim yn siwr'. O ran y 26 cwestiwn arall, nid oedd mwyafrif absoliwt yn erbyn y cynnig ar gyfer yr un ohonynt, ond roedd nifer sylweddol o ymatebion yn rhai negyddol neu ansicr. O ran y 26 cwestiwn hynny, roedd yr ansicrwydd neu'r agwedd negyddol ar eu cryfaf ynghylch materion a oedd yn gysylltiedig â'r canlynol:

- diffinio ac adnabod ADY, yr amserlenni ar gyfer cyflawni dyletswyddau, a rolau'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ('CADY'), y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ('SACDA'), a'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal;
- trefniadau ar gyfer datrys anghytundebau, gwasanaethau eirioli ac apelau;
- dirprwyo dyletswyddau i unedau cyfeirio disgyblion;
- templedi cynlluniau datblygu unigol ('CDU');
- darparu CDUau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn mynychu lleoliad addysgol;
- a sut y bydd y system ADY yn gweithredu mewn perthynas â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth.

Mae'n werth nodi bod y sylwadau a gafwyd gan ymatebwyr yn tueddu i fod oddi wrth y rhai a oedd yn gwrthwynebu agweddau penodol ar y lliaws bolisiau a nodir yn y Cod ADY drafft, neu oddi wrth y rhai a oedd yn ansicr ynghylch agweddau ar y polisiau hynny. Roedd hyn yn wir hyd yn oed mewn perthynas â'r materion hynny lle roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi rhoi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn perthnasol. Roedd y sylwadau hefyd yn cynnwys nifer mawr o gynigion ar gyfer newidiadau technegol i'r Cod ADY.

## Ymatebion

Ymatebodd cyfanswm o 644 o bobl i'r prif ymgynghoriad. Cyflwynwyd 309 o'r ymatebion hynny drwy gyfrwng y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a chyflwynwyd y gweddill fel testun rhydd.

Roedd 273 o'r ymatebion ar ffurf testun rhydd union yr un fath â'i gilydd, ac wedi'u cyflwyno fel rhan o ymgyrch a gydgyssylltwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Cymru i Blant Byddar (NCDS). At ddibenion dadansoddi nifer yr ymatebion yn yr adroddiad cyfan, trafodwyd y rhain fel un ymateb. Mae crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn o dan gwestiwn 46 a oedd yn gofyn am unrhyw sylwadau eraill ar y Cod.

Yn ogystal, gwnaeth 16 o blant a phobl ifanc ymateb a chafwyd 15 ymateb i'r ddogfen hawdd ei deall. Cyhoeddwyd yr ymatebion yn llawn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Darperir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad B.

Roedd y rhan fwyaf o'r 65 cwestiwn yn gofyn am ateb 'ie', 'na' neu 'ddim yn gwybod' yn ogystal â sylwadau ategol. Mae nifer yr ymatebion a ddangosir yn y tablau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r rhai a gwblhaodd y ffurflen, ac mae'r testun ategol yn dadansoddi'r ymatebion a gafwyd (gan gynnwys rhai na chyflwynwyd ar ffurflen ymatebion). Fel y nodir yn y tablau, ni ddarparwyd ateb i bob cwestiwn gan bawb wnaeth ymateb, boed ar ffurf tic mewn blwch neu sylwadau. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, anogwyd rhanddeiliaid i ymateb i'r cwestiynau yr oedd ganddynt farn amdanynt yn hytrach na theimlo bod rhaid iddynt ateb pob cwestiwn.

Yn ogystal, roedd rhai o'r ymatebion a gafwyd yn rhai ar y cyd, gan gynrychioli barn llawer o unigolion a sefydliadau, ond cawsant eu cyfrif fel un ateb, er enghraifft, dosbarth o blant neu adran awdurdod lleol.

## **Digwyddiadau i Randdeiliaid**

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, trefnodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad ymgynghori hanner-diwrnod ym mhob un o bedair ardal y consortia rhanbarthol yng Nghymru ar y dyddiadau canlynol:

- Casnewydd - 12 Chwefror 2019
- Llanelli - 13 Chwefror 2019
- Caerdydd - 19 Chwefror 2019
- Llandudno - 21 Chwefror 2019

Daeth cyfanswm o 800 o bobl i'r digwyddiadau hyn. Roedd pob digwyddiad wedi'i strwythuro yn yr un modd ac wedi'i rannu'n dair rhan; cyflwyniad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru ar y Cod drafft, gweithdy i bawb i drafod ac i ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch yr amserlenni a gynigiwyd yn y Cod drafft a gweithdai llai ar gyfer grwpiau. Cafodd cyflwyniadau Llywodraeth Cymru yn Llandudno eu ffrydio'n fyw ar-lein ar gyfer y rhai nad oeddynt yn gallu mynd i unrhyw un o'r wyth digwyddiad.

Canolbwyntiodd y gweithdai grwpiau yn y digwyddiadau rhanbarthol ar bum thema: rôl y CADY; rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar; penderfyniadau awdurdodau lleol ynghylch lleoliadau arbenigol ôl-16; cyngor, gwybodaeth a datrys anghydfodau; a iechyd a rôl y SACDA. Hwyluswyd pob gweithdy yn yr holl ddigwyddiadau ymgynghori gan gwmni annibynnol; cyhoeddwyd adroddiad yn darparu dadansoddiad o'r adborth a gafwyd yn y gweithdai hynny ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o'r ymatebion<sup>9</sup>.

Yn ogystal â'r digwyddiadau rhanbarthol, comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o sesiynau ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a rhieni yn ystod y cyfnod

---

<sup>9</sup>Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

ymgynggori a daeth 228 o bobl i'r sesiynau. Cyhoeddwyd adroddiad ar y sesiynau ymgysylltu hyn ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o'r ymatebion.<sup>10</sup>

Cyfeirir at yr adroddiadau hyn gydol y ddogfen hon er mwyn cymharu sylwadau'r bobl a ddaeth i'r digwyddiadau rhanbarthol a'r sesiynau ymgysylltu â'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

---

<sup>10</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser ac a wnaeth yr ymdrech i ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu a gyfrannodd eu barn drwy'r digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol a'r gweithdai ymgysylltu i blant, pobl ifanc a rhieni.

Daeth toreth o sylwadau i law, yn ymdrin â bron i bob agwedd ar y Cod ADY drafft a'r rheoliadau arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried yn ofalus pa newidiadau i'w gwneud yn sgil sylwadau'r ymatebwyr. Bydd y newidiadau hyn, a'r rhesymau drostynt, yn cael eu hegluro yn y memoranda esboniadol a fydd yn cyd-fynd â'r Cod ADY a'r rheoliadau pan gânt eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Fodd bynnag, codwyd nifer o faterion yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y byddai'n ddefnyddiol manteisio ar y cyfle hwn i'w trafod.

Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch amryw o dermau sy'n ymddangos yn y Cod ADY drafft. Mae rhai o'r termau hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r Ddeddf ac ni chaiff y Cod ADY eu newid. Roedd galw hefyd am arweiniad ynghylch ystyr rhai termau. Wrth roi rhagor o ystyriaeth i'r pwyntiau hyn, byddwn yn cadw mewn cof a fyddai manylu ymhellach yn ychwanegu gwerth neu a fyddai perygl y byddai gwneud hynny yn culhau neu'n ehangu ystyr y term heb inni fwriadu gwneud hynny.

Yn benodol, roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu gwahanol agweddau ar eiriad y diffiniadau o ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol ('DDdY'). Pennwyd y diffiniadau hyn yn y Ddeddf ac ni chaiff y Cod ADY eu newid. Mae geiriad y diffiniadau o ADY a DDdY a ddefnyddir yn y Ddeddf, ac sy'n cael eu hailadrodd yn y Cod ADY drafft, yn fwriadol debyg i'r geiriad a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â'r diffiniadau o AAA ac o ddarpariaeth addysgol arbennig ('DAA') sydd eisoes yn gyfarwydd i lawer o weithwyr proffesiynol.

Cwestiynodd ymatebwyr elfennau eraill o'r system fel y'u pennir yn y Ddeddf hefyd. Er enghraifft, roedd rhai yn anghytuno â'r egwyddor bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi a chynnal CDUau ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal. Roedd eraill yn galw am greu gofynion newydd nad oes unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer yn y Ddeddf, fel ei gwneud yn orfodol i bartion ddilyn proses datrys anghydfod cyn iddynt gael gwneud apêl, neu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys. Rhaid i'r Cod ADY a'r rheoliadau gydweddu â'r Ddeddf ac ni allant ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson wneud rhywbeth nad yw'r Ddeddf yn darparu pŵer ar ei gyfer.

Yn yr un modd, roedd galw yn aml am newid llawer o'r achosion o "dylai" yn y Cod ADY drafft i "rhaid". Er mwyn i rywbeth fod yn ofyniad gorfodol ("rhaid"), mae angen i'r Ddeddf roi'r pŵer i'r Cod ADY neu i'r rheoliadau ei bennu felly. Mae ystod y materion y mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i wneud gofynion gorfodol yn eu cylch wedi'i gyfyngu gan y Ddeddf. Hyd yn oed pan fo'r Ddeddf yn darparu pŵer o'r fath, mae cwestiwn p'un ai gofyniad gorfodol ai canllawiau statudol ("dylai") sydd fwyaf priodol. Mae'n ystyriaeth bwysig a yw'n bosibl y byddai achlysuron pan fyddai modd cyfiawnhau peidio â chydymffurfio ac, os

felly, a fyddai'n well ymdrin â'r rhain drwy nodi eithriadau penodol i ofyniad gorfodol neu drwy ganiatáu i'r person gyfiawnhau peidio â chydymffurfio fesul achos.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch yr arddull ieithyddol a ddefnyddir yn y Cod ADY drafft. Gan y bydd y Cod ADY yn gosod gofynion gorfodol sy'n gyfystyr ag is-ddeddfwriaeth, rhaid i'r iaith a ddefnyddir fod yn fanwl ac yn eglur. Mae hyn yn bwysig oherwydd fod angen i'r rhai sy'n gorfod cydymffurfio â'r gofynion hyn allu deall yr hyn a ofynnir ganddynt ac er mwyn ei gwneud yn bosibl gorfodi'r gofyniad. Yn yr un modd, mae angen i'r canllawiau yn y Cod fod yn fanwl ac yn eglur er mwyn i'r sawl sy'n gorfod rhoi sylw dyledus iddo allu deall yr hyn y mae rhaid iddynt ei wneud oni bai eu bod yn gallu cyfiawnhau peidio â gwneud hynny. Mae hefyd yn bwysig nodi mai'r brif gynulleidfa darged a oedd mewn golwg wrth lunio'r Cod ADY oedd gweithwyr proffesiynol yn yr awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf, fel a restrir ym Mhennod 1 o'r Cod ADY drafft. Ni ysgrifennwyd y Cod ADY drafft i fod yn hwylus i'r cyhoedd ei ddeall gan nad dyna'r gynulleidfa a oedd mewn golwg wrth lunio'r Cod ADY. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi canllawiau ynghylch y system ADY newydd, maes o law, wedi'u hanelu'n benodol at blant, pobl ifanc a rhieni, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau o dan y system newydd. Bydd hyn yn rhan o raglen ehangach i godi ymwybyddiaeth cyn rhoi'r system ADY ar waith.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad yw'r Cod ADY drafft yn dweud llawer am alluedd meddyliol mewn perthynas â phobl ifanc a rhieni. Fel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, bwriedir ymdrin â hyn mewn rheoliadau a wneir o dan adran 83 o'r Ddeddf cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i ystyried penderfyniad pwysig gan y Goruchaf Lys sydd yn yr arfaeth, yn ogystal ag unrhyw newidiadau perthnasol a wnaed i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019.

Cododd rhai ymatebwyr faterion ynghylch darparu cludiant i ddysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau neu anabledau dysgu. Fel y crybwyllwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori ar ddiwygiadau i Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol (2014).

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r Cod ADY gynnwys canllawiau ar ddarnau perthnasol eraill o ddeddfwriaeth neu ar faterion a nodir mewn canllawiau statudol eraill. Mae'r Ddeddf yn dweud yn eglur y caiff y Cod gynnwys canllawiau ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Ddeddf ac ynghylch unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig ag adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, felly, nid yw'n briodol i'r Cod ADY drafft ddarparu canllawiau ynghylch materion eraill, er y cyfeirir at rannau eraill o'r gyfraith neu ganllawiau eraill, lle bo'n briodol.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai gweithredu'r system ADY newydd yn cael effaith ariannol sylweddol. Cafodd goblygiadau ariannol y Ddeddf eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd gyda'r Bil. Yn benodol, craffwyd yn fanwl ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Bwyllgor

Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys oedi cyn pleidleisio ar y cynnig ar y penderfyniad ariannol tra bo gwaith dadansoddi annibynnol pellach yn cael ei wneud. Cafodd y dadansoddiad hwn ei ystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn iddo basio'r penderfyniad ariannol mewn cysylltiad â'r mater hwn.

Mewn cydnabyddiaeth o'r costau sydd ynghlwm â symud o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r system ADY newydd, mae cyllid grant ar gyfer gweithredu'n cael ei ddarparu ar lefel ranbarthol, a chaiff hynny ei gydlynu gan yr Arweinwyr Trawsnewid Rhanbarthol. Bydd hyn yn cyfrannu at gostau cyflwyno hyfforddiant a datblygu proffesiynol amlasiantaethol, rhanbarthol sy'n berthnasol i'r fframwaith deddfwriaethol newydd, a rhoddir sylw i'w oblygiadau i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yr hyfforddiant yn targedu ymarferwyr allweddol sydd â rolau penodol yn y system newydd (gan gynnwys y CADYau a swyddogion SACDA) er mwyn sicrhau bod y system ADY newydd yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am i Lywodraeth Cymru ystyried datblygu system electronig i gefnogi'r broses CDU. Mae gwaith eisoes ar y gweill yn y maes hwn ac ar hyn o bryd rydym wrthi'n cynnal archwiliad cychwynnol i sefydlu dichonoldeb a phriodoldeb datblygu system ar-lein ar gyfer Cymru gyfan.

Yn olaf, mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch capasiti'r gweithlu arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, i gyflawni elfennau o'r system newydd a ddisgrifir yn y Cod ADY drafft. Mae gwaith eisoes ar droed i wella capasiti'r gweithlu arbenigol (er enghraifft, drwy ariannu hyfforddiant ôl-raddedig ar gyfer seicolegwyr addysg a gwasanaethau cymorth synhwyraidd). Hefyd, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r pryderon hyn wrth ystyried pa newidiadau i'w gwneud i'r Cod.

## **Y camau nesaf**

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi codi nifer fawr o faterion sy'n gofyn am ystyriaeth fanwl nawr i benderfynu pa newidiadau i'w gwneud i'r Cod a'r rheoliadau. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod drafft diwygiedig o'r Cod ADY gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w gymeradwyo yn nes ymlaen yn 2019. Ar yr un pryd, bwriedir gosod amryw o reoliadau gerbron (rhai ohonynt ar ffurf ddrafft) sydd i'w gwneud o dan y Ddeddf, gan gynnwys y rhai yr ymgynghorwyd yn eu cylch fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Caiff y memoranda esboniadol a'r asesiadau effaith perthnasol eu cyhoeddi hefyd pan osodir y Cod ADY a'r rheoliadau gerbron.

A chymryd y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r Cod ADY, disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2019. Bydd y system ADY newydd yn cael ei rhoi ar waith dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau ym mis Medi 2020.

## Crynodeb o'r ymatebion i Ran 1: Y Cod ADY drafft

### Cwestiwn 1 - Ydy'r esboniad ym mharagraffau 1.10 -1.16 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY o ddefnydd ac ystyr y gwahanol dermau 'rhaid', 'ni chaiff', 'gall', 'dylai' ac 'ni ddylai' yn glir?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 70.87%               | 163                    |
| 2 | Nac ydy      |  | 20.87%               | 48                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 8.26%                | 19                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 230                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 79                     |

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r 230 o ymatebwyr a atebodd naill ai 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn yn cytuno fod yr esboniad ym mharagraffau 1.10 -1.16 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY o ddefnydd ac ystyr y gwahanol dermau 'rhaid', 'ni chaiff', 'gall', 'dylai' ac 'ni ddylai' yn glir. Darparodd 133 o ymatebwyr sylw ategol ac roedd llawer ohonynt o'r farn fod esboniadau ac ystyron y gwahanol dermau wedi'u diffinio'n eglur a'u bod yn ddefnyddiol ac yn briodol.

Er bod cytundeb cyffredinol bod defnydd ac ystyr 'rhaid' a 'ni chaiff' yn eglur, mynegodd nifer o ymatebwyr bryder nad yw'r gwahaniaeth rhwng y termau 'dylai' a 'rhaid' yn eglur ac y byddai gan hynny oblygiadau, efallai, o ran rhoi'r Cod ar waith yn ymarferol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod cynnwys 'dylai'/'ni ddylai' yn briodol ond yn awgrymu y dylid defnyddio 'rhaid' yn fwy aml ar draws y Cod. Roedd eraill yn teimlo os oes rhaid defnyddio 'dylai'/'ni ddylai', yna byddai'n ddefnyddiol cael esboniad mwy eglur o'r hyn y mae hynny yn ei olygu'n ymarferol, a gofynnodd rhai am enghreifftiau er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurdeb i bawb. Roedd eraill yn teimlo er bod y termau'n eglur, nad oeddynt yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn eglur.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn fod y termau 'dylai' a 'ni ddylai' yn rhy oddrychol, yn amwys ac y gellid eu dehongli'n wahanol gan wahanol awdurdodau a gweithwyr proffesiynol. Mynegwyd pryder gan lawer o'r rhai a gododd y mater hwn ynghylch beth sy'n cyfrif fel 'amgylchiadau eithriadol' (fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.13 y Cod ADY drafft). Roedd nifer o ymatebwyr yn amlwg yn ansicr o ystyr cyfreithiol y term 'caiff' a'r modd y mae'n cael ei ddefnyddio yn y Cod.

**Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau (hynny yw, gweithredu'n brydlon a, ph'un bynnag, o fewn cyfnod penodol), fel yr eglurir ym mharagraffau 1.31 - 1.32 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydw          |  | 58.88%               | 126                    |
| 2 | Nac ydw      |  | 21.03%               | 45                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 20.09%               | 43                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 214                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 95                     |

Atebodd 214 o bobl naill ai 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cytuno â dull gweithredu cyffredinol y Cod drafft ynghylch amserlenni. Darparwyd sylwadau gan 156 o ymatebwyr. Hyd yn oed ymhlith y rhai a oedd yn anghytuno, y rheswm mwyaf cyffredin dros wneud hynny a roddwyd yn y sylwadau oedd gwrthwynebiad i'r cyfnodau penodol a bennwyd mewn manau eraill yn y Cod drafft yn hytrach na gwrthwynebiad mewn egwyddor i'r dull gweithredu'n gyffredinol. Mynegwyd pryder gan rai ymatebwyr ynghylch ystyr a dehongliad y term 'yn brydlon' ac roedd ambell un yn cwestiynu a fyddai pwyslais ar fodloni amserlenni yn arwain at ddirywiad yn ansawdd y broses o wneud penderfyniadau. Trafodwyd y cwestiwn hwn yn ystod digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chodwyd pwyntiau tebyg iawn gan y rhai a ddaeth iddynt<sup>11</sup>.

<sup>11</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

**Cwestiwn 3 - Ydy'r eithriad cyffredinol sy'n gymwys yn achos amserlenni, fel y'i disgrifir ym mharagraffau 1.33-1.35 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 56.25%               | 117                    |
| 2 | Nac ydy      |  | 20.67%               | 43                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 23.08%               | 48                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 208                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 101                    |

Atebodd 208 o bobl naill ai 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cytuno bod yr eithriad cyffredinol arfaethedig yn briodol. Darparwyd sylwadau gan 116 o ymatebwyr. O'r rhain, roedd rhai yn pryderu nad ydy'r termau 'anymarferol' ac 'amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y corff' yn cael eu hesbonio'n ddigonol.

Roedd pryder ymhlith rhai y gallai geiriad yr eithriad arwain at ei or-ddefnyddio ac roeddynt yn holi sut y gellid monitro hyn a dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif pan fyddant yn honni bod yr eithriad yn berthnasol. Roedd eraill yn pryderu bod yr enghreifftiau a roddir yn canolbwyntio'n ormodol ar y plentyn ac y dylent roi rhagor o ystyriaeth i faterion fel absenoldeb staff, cyfnodau gwyliau ysgol a chyfnodau o oedi wrth aros am gyngor arbenigol. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai'n amhriodol cyhoeddi CDU cyn cael yr holl wybodaeth berthnasol ac roeddynt felly'n cwestiynu'r eglurhad pellach i'r term 'anymarferol' a ddarperir yn y Cod drafft.

Trafodwyd y cwestiwn hwn yn ystod digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru ac, unwaith eto, codwyd pwyntiau tebyg iawn ynddynt<sup>12</sup>.

<sup>12</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

#### Cwestiwn 4 - Ydy strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r modd mae'r Penodau wedi'u rhannu yn briodol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 67.44%               | 145                    |
| 2 | Nac ydy      |  | 25.58%               | 55                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 6.98%                | 15                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 215                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 94                     |

Atebodd 215 o bobl naill ai 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn cytuno bod strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r modd y mae'r penodau wedi'u rhannu yn briodol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Fodd bynnag, o'r 130 o ymatebwyr a ddarparodd sylwadau, roedd rhai'n teimlo bod y Cod ADY drafft yn rhy hir neu fod ganddo ormod o benodau, a bod y penodau'n ailadroddus a hyd yn oed yn gwrthddweud ei gilydd. Roedd pryder fod gormod o groesgyfeirio rhwng penodau neu y gallai'r penodau fod yn gamarweiniol pe byddent yn cael eu darllen ar eu pennau eu hunain.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a yw trefn bresennol y penodau yn eglur ac yn rhesymegol, ac roedd galw am symud rhai penodau. Er enghraifft, roedd nifer o ymatebwyr yn meddwl y dylai Pennod 7 (Y diffiniad o ADY a DDdY) neu Bennod 24 (Rôl y Cydlynnydd ADY) fod naill ai ar ddechrau'r Cod neu'n agos at ei ddechrau. Roedd eraill yn awgrymu ailstrwythuro'r Cod yn gyfan gwbl fel ei fod yn fwy seiliedig ar oedran y dysgwyr (roedd nifer o ddarparwyr addysg bellach yn teimlo y dylid ymdrin â phob person ifanc yn yr un penodau, ni waeth i ba leoliad addysgol y maent yn mynd, ar sail yr egwyddor fod eu hanghenion yn wahanol i rai plant) neu ar anghenion penodol gwahanol grwpiau o ddarllenwyr (er enghraifft, staff addysgu, llywodraethwyr, swyddogion awdurdodau lleol). Roedd nifer o ymatebwyr (gan gynnwys Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol) yn credu y byddai mynegai yn ddefnyddiol. Roedd rhai awdurdodau lleol a ymatebodd o'r farn y dylid cynnwys pennod benodol ynghylch plant sy'n derbyn gofal.

Er nad oedd o reidrwydd yn berthnasol i'r cwestiwn, atebodd lleiafrif o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn drwy awgrymu bod yr iaith gymhleth, dechnegol neu gyfreithiol a ddefnyddir yn y Cod yn ei wneud yn anodd ei ddeall. Awgrymodd rhai y dylid cyhoeddi canllawiau ategol er mwyn helpu'r darllenydd.

### Cwestiwn 5 - Ydy ffocws y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar ddisgrifio ac egluro'r swyddogaethau a phrosesau yn briodol?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 62.07%               | 126                    |
| 2 | Nac ydy      |  | 22.17%               | 45                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 15.76%               | 32                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 203                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 106                    |

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r 203 o ymatebwyr a atebodd naill ai 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn yn cytuno fod ffocws y Cod ar ddisgrifio ac egluro'r swyddogaethau a phrosesau yn briodol. Darparwyd sylw ategol gan 110 o ymatebwyr. Ni ddarparwyd sylw ategol gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd 'ydy', ond darparwyd sylw ategol ysgrifenedig gan fwyafrif sylweddol y rhai a atebodd 'nac ydy'.

Gwnaed sylw cadarnhaol gan lawer o ymatebwyr bod ffocws a manylder y Cod yn briodol a'i fod yn nodi'r broses a'r dyletswyddau gofynnol yn eglur. Dywedodd rhai pobl ei fod yn hawdd ei ddeall, yn ddefnyddiol ac yn hygyrch i bersonau perthnasol.

Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr yn feirniadol o'r Cod. Dywedodd rhai fod y ffocws yn briodol ond eu bod yn teimlo nad yw'r Cod yn hwylus i'w ddarllen a'i bod yn anodd ei ddilyn. Roedd eraill yn teimlo fod angen rhagor o fanylion yn y Cod, gan gynnwys cyngor ymarferol ac astudiaethau achos i helpu i esbonio dyletswyddau a phrosesau a'u gwneud yn fwy eglur. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r Cod yn ddigon penodol a'i fod yn agored i'w ddehongli mewn gwahanol ffyrdd a bod angen felly iddo fod yn fwy eglur, yn fwy cyson ac yn fwy cyfarwyddol.

Galwodd rhai ymatebwyr am gyhoeddi canllawiau arfer da, fel astudiaethau achos ac enghreifftiau, ar wahân i gefnogi'r Cod. Galwodd eraill am gyfres o grynodedau byrrach, symlach wedi'u hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gofawyr. Roedd nifer o awgrymiadau cyffredin gan gynnwys galwadau am ddefnyddio mwy o dablau, rhestrau gwirio a siartiau llif i wneud prosesau'n fwy eglur.

### Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio rheoliadau i ddirprwyo swyddogaethau o awdurdod lleol i Bwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydw          |  | 39.24%               | 62                     |
| 2 | Nac ydw      |  | 18.99%               | 30                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 41.77%               | 66                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 158                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 151                    |

Atebodd 158 o bobl 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn a darparodd 72 ohonynt sylwadau ategol.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o blaid y cynnigion i gyflwyno rheoliadau i awdurdodau lleol ddirprwyo i Bwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion yr un swyddogaethau mewn perthynas â'r system ADY ag y mae Deddf 2018 yn eu gosod ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ac yn cytuno bod hynny'n briodol. Fodd bynnag, yn eu hatebion yn cefnogi'r cynnigion hyn, roedd ymatebwyr yn rhybuddio'n gryf bod angen darparu'r cymorth, y cyllid a'r hyfforddiant angenrheidiol i Bwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion allu cyflawni'r swyddogaethau newydd hyn.

Codwyd pryderon ynghylch egwyddor y cynnigion gan rai ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau y gellid gweld Unedau Cyfeirio Disgyblion fel ysgolion arbennig yn hytrach na fel datrysiad dros dro â'r bwriad o ailintegreiddio disgyblion i'w hysgolion prif ffrwd.

Roedd rhai o'r themâu cyffredin eraill a grybwyllwyd gan ymatebwyr wrth ateb y cwestiwn hwn yn ymwneud â pha un a oes gan y Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yr arbenigedd angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau arfaethedig, a hefyd y posibilrwydd y gallai awdurdodau lleol benderfynu diosg eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd cyffredinol dros ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr sy'n mynd i Unedau Cyfeirio Disgyblion oherwydd fod swyddogaethau wedi cael eu dirprwyo i'r Pwyllgorau Rheoli.

### Cwestiwn 7 - Ai'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yw'r rhai cywir?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ie           |  | 77.72%               | 157                    |
| 2 | Nage         |  | 6.44%                | 13                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 15.84%               | 32                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 202                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 107                    |

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r 202 o ymatebwyr a atebodd naill ai 'ie', 'nage' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn yn cytuno mai'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yw'r rhai cywir. Yn ogystal, roedd mwyafrif helaeth y 130 o ymatebwyr a ddarparodd sylw ategol yn cytuno â'r datganiad hwn.

Roedd llawer o'r sylwadau'n ymwneud â'r ffordd y bydd pob un o'r pum egwyddor yn helpu i gyflawni nodau polisi'r system ADY newydd a sut y bydd hyn yn gwella deilliannau i blant a phobl ifanc. Fe'u croesawyd i gyd gan yr ymatebwyr. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebwyr egwyddorion ychwanegol ar gyfer y Cod, neu rai amgen, gan gynnwys diogelu, atal, partneriaeth a llais y disgybl. Er nad oeddynt yn dadlau dros hynny fel egwyddor benodol, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid ystyried safbwyntiau a barn gweithwyr proffesiynol hefyd fel rhai dilys a phwysig ac y dylid talu sylw iddynt yn ystod cyfarfodydd ADY/CDU, yn enwedig pan nad yw dymuniadau'r plentyn o reidrwydd er ei les pennaf.

Trafododd llawer o'r ymatebwyr integreiddio arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y Cod. Er bod cefnogaeth fras i'r syniad fod y pum egwyddor yn ategu ac yn hwyluso dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran cynllunio darpariaeth ddysgu ychwanegol a'i chyflwyno, dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn croesawu pwyslais cryfach ar hyn fel egwyddor allweddol yn y Cod. Roedd rhai'n teimlo y bydd yn her yn ymarferol cyflwyno system sy'n ymgorffori ac yn gwireddu'r egwyddorion hyn, ac o ganlyniad, na fydd yn bosibl cyflawni hyn mewn rhai achosion.

Roedd rhai ymatebwyr yn mynegi pryderon yn arbennig ynghylch goblygiadau cyflawni'r egwyddorion hyn ar gyfer gwasanaethau iechyd. Roedd eraill yn teimlo bod dull gweithredu wedi'i seilio ar hawliau yn debygol o gymryd rhagor o amser ac y bydd gofyn cael capasiti ac adnoddau ychwanegol i sicrhau bod yr egwyddor yn cael ei hymgorffori mewn arferion gwaith effeithiol.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai'r Cod ategu'r egwyddorion yn gryfach gydol y penodau unigol.

Yr ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc: Cwestiwn 1 - Ydych chi'n meddwl mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir?; Dogfen ymgynghori hawdd ei darllen: Cwestiwn 1 - Ydych chi'n meddwl bod y ffordd rydyn ni eisiau i bobl weithio yn gywir?

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r ddogfen ymgynghori hawdd ei deall yn cytuno mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir.

Yn ogystal, roedd yr holl blant, pobl ifanc a rhieni yn y gweithdai i blant a phobl ifanc<sup>13</sup> yn cytuno mai'r rhain yw'r syniadau cywir. Nododd y plant a'r bobl ifanc pa mor bwysig yw hi i gymryd rhan a sut y bydd yn eu helpu i ddysgu. Hefyd nodwyd pwysigrwydd cael eu cynnwys pan fo cynlluniau'n newid a soniwyd am yr angen i gael help a chefnogaeth cyn gynted â phosibl.

**Cwestiwn 8 - Ydy'r esboniad o'r dyletswyddau'n ymwneud â chynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc a roddir ym Mhennod 3 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |   | 70.73%               | 145                    |
| 2 | Nac ydy      |  | 18.05%               | 37                     |
| 3 | Ddim yn siŵr |  | 11.22%               | 23                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 205                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 104                    |

Atebodd 205 o bobl 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn a darparodd 110 ohonynt sylwadau ategol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno fod yr esboniad o'r dyletswyddau'n ymwneud â chynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc yn briodol. Fodd bynnag, er eu bod yn cefnogi'r esboniad o'r dyletswyddau hyn yn y Cod drafft, dywedodd rhai pobl fod y bennod yn rhy hir. Mewn cyferbyniad, roedd eraill yn teimlo y gellid bod wedi cynnwys mwy o wybodaeth ynghylch arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ynghylch mathau o gyfathrebu.

Roedd llawer o ymatebwyr a atebodd 'nac ydy' i'r cwestiwn hwn yn teimlo bod angen i'r bennod ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch sicrhau bod pobl ifanc a rhieni yn gallu cael mynediad at gyngor ac arweiniad diduedd.

<sup>13</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

**Cwestiwn 9 - Ydy Pennod 4 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir am y disgwyliadau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG wrth gyflawni eu dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 63.93%               | 117                    |
| 2 | Nac ydy      |  | 16.39%               | 30                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 19.67%               | 36                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 183                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 126                    |

Ymatebodd 183 o bobl i gwestiwn 9 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 101 o bobl sylwadau ategol. Dywedodd rhai o'r rheini a atebodd 'ydy' ac a wnaeth sylwadau i gefnogi eu hateb fod y canllawiau ym Mhennod 4 yn ddefnyddiol ac yn rhoi eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol a chyrff GIG. Fodd bynnag, soniodd rhai fod angen hyfforddiant, gan gynnwys ar Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig, er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol a chydymffurfio â'r canllawiau yn y Cod.

O'r rheini a ddywedodd 'na' neu 'ddim yn siwr' ac a wnaeth sylwadau i gefnogi eu hateb, roedd tua hanner ohonynt yn teimlo bod strwythur y bennod yn ddryslyd neu bod y canllawiau'n aneglur, yn gymhleth neu'n amleiriog. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder bod penderfyniadau'n ymwneud â dysgwyr ôl-16 y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt yn cael eu seilio ar argaeledd cyllid yn hytrach na rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Awgrymodd rhai fod angen cynnwys manylion mwy penodol ar sut y dylid cyflawni'r dyletswyddau hyn ym ymarferol, ac ar agweddau eraill ar y canllawiau yn y bennod. Awgrymodd ambell un y gallai diffyg eglurder ym Mhennod 4 olygu bod y dyletswyddau'n cael eu cyflawni mewn ffyrdd gwahanol. Dywedodd rhai y dylai'r bennod hon gynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth arall yn ymwneud ag anabledd a hygyrchedd, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010.`

**Cwestiwn 10 - Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 5 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â'r dyletswyddau i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 65.78%               | 123                    |
| 2 | Nac ydyn     |  | 13.90%               | 26                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 20.32%               | 38                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 187                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 122                    |

Ymatebodd 187 o bobl i gwestiwn 10 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 125 o bobl sylwadau ategol. Dywedodd rhai o'r rheini a wnaeth sylwadau fod y canllawiau'n glir. Gwnaeth eraill godi pryderon gweithredol neu ofyn am eglurder ar sut y byddai cadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn gweithio'n ymarferol gan gynnwys, er enghraifft, yr amserlenni cysylltiedig, rolau penodol a'r cysylltiad rhwng yr adolygiadau ac agendâu gwella ysgolion.

Awgrymodd rhai ymatebwyr newidiadau i'r derminoleg a ddefnyddir yn y bennod neu eu hegluro, gan gynnwys y defnydd o 'rhaid' a 'dylai'. Awgrymodd eraill newidiadau i agweddau penodol ar y canllawiau neu eu hegluro, megis y canllawiau ar gynnal adolygiadau a'r camau gweithredu yn dilyn canlyniad adolygiad.

**Cwestiwn 11 - Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 6 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â gwneud trefniadau i roi cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 61.81%               | 123                    |
| 2 | Nac ydyn     |  | 22.61%               | 45                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 15.08%               | 30                     |
| 4 | gwag         |  | 0.50%                | 1                      |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 199                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 110                    |

Ymatebodd 198 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 135 o bobl sylwadau ategol. Roedd y mwyafrif a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blaid egwyddorion Pennod 6 o ran darparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY mewn ffordd ddiduedd. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch a fyddai awdurdod lleol yn gallu darparu cyngor a gwybodaeth diduedd oherwydd gallent fod â buddiant yng nghanlyniad achosion o'r fath.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai peidio â darparu cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY ar lefel genedlaethol ar draws Cymru greu anghysonderau yn y cymorth a ddarperir i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r sylwadau tebyg a wnaed gan lawer o'r rheini a fynychodd y gweithdai i drafod cyngor a gwybodaeth, datrys anghytundebau ac eiriolaeth annibynnol yn nigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru<sup>14</sup>.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yn rhaid i'r rheini sy'n gwasanaethau cyngor a gwybodaeth feddu ar nod sicrwydd ansawdd a archwiliwyd yn allanol er mwyn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fod yn hyderus eu bod yn cael cyngor a gwybodaeth ffeithiol, clir a chywir.

<sup>14</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*.

## Cwestiwn 12 - Ydy'r esboniad hwn o ADY a roddir ym mharagraffau 7.4 – 7.32 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 40.28%               | 85                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 44.08%               | 93                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 15.17%               | 32                     |
| 4 | gwag         |  | 0.47%                | 1                      |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 211                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 98                     |

Ymatebodd 211 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr'. Roedd yna raniad gyfartal rhwng yr ymatebwyr o ran eu barn ynghylch a yw'r diffiniad a ddarparwyd o ADY yn glir.

Cafwyd sylwadau gan 163 o ymatebwyr. O'r rhain, roedd nifer yn teimlo bod yr ymadrodd "anhawster sylweddol fwy i ddysgu" yn amwys ac nad yw wedi'i egluro'n ddigonol. O ganlyniad, dadleuwyd y byddai'r ymadrodd hwn yn agored i gael ei ddehongli'n wahanol gan wahanol bobl ac felly'n arwain at anghysonder o ran y ffordd y caiff ei gymhwyso ynghyd ag anghytundeb posibl rhwng plant, eu rhieni a phobl ifanc a'r corff cyfrifol perthnasol neu rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol. Gofynnodd rhai ymatebwyr am feini prawf ychwanegol ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch ADY.

Gofynnwyd hefyd am fwy o eglurder ar y gwahaniaeth rhwng darpariaeth addysgu gwahaniaethol/dysgu cyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol, ac am ganllawiau ar "ymateb graddedig". Yn ogystal, gofynnodd eraill am gysylltiadau clir â'r ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb a'r canllawiau ar anghenion gofal iechyd. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am y diffiniad o ADY yn achos plant sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol, a hefyd am y diffiniad o DDdY yn achos plant o dan 3 oed.

Awgrymodd y Comisiynydd Plant y dylid integreiddio'r bennod hon i benodau 8-12, gan ddadlau bod y broses nodi yn rhan o'r dyletswyddau a amlinellir yn y penodau hynny a bod angen ei hystyried yng ngoleuni'r amserlenni y mae'r penodau hyn yn eu rhagnodi. Cyngorodd Estyn na ellid darllen yr ystyriaethau ym Mhennod 7 ar wahân i'r gofynion gweithdrefnol a roddir ar gorff llywodraethu a chyrrff perthnasol eraill gan weddill y Cod. Felly, mae angen mwy o gysondeb rhwng Pennod 7 a Phenodau 8 i 12. Dywedodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod angen rhoi mwy o bwyslais yn y bennod hon ar y cysylltiad rhwng ADY ac anghenion gofal iechyd.

**Cwestiwn 13 - Ydy Pennod 7 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi esboniad clir a chynhwysfawr o'r dystiolaeth a ddylai fod yn sail i benderfyniadau am ADY a DDdY, o ba ffynonellau y gellid coladu'r dystiolaeth hon, a sut y dylid ei hystyried?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 40.00%               | 80                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 40.50%               | 81                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 19.00%               | 38                     |
| 4 | gwag         |  | 0.50%                | 1                      |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 200                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 109                    |

Ymatebodd 200 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr'. Roedd yna raniad cyfartal unwaith eto rhwng yr ymatebwyr.

Cafwyd sylwadau gan 159 o ymatebwyr. Roedd nifer o'r rheini a atebodd 'na' i'r cwestiwn hwn yn teimlo eto bod yr esboniad yn aneglur ac yn debygol o arwain at benderfyniadau goddrychol ac anghyson. Gofynnwyd am fwy o eglurder a thystiolaeth fwy meintiol.

Roedd rhai'n feirniadol o'r rhestrau amrywiol yn y bennod hon (yn ymwneud â'r anawsterau y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn eu hwynebu, y pethau a allai achosi pryderon, y partïon amrywiol a allai gyfrannu at y broses nodi, a'r gwasanaethau cyngor ac arbenigol a allai fod yn ddefnyddiol) gan ddweud eu bod naill ai'n rhy fanwl neu'n rhy gyffredinol. Cwestiynwyd geiriad elfennau unigol o'r rhestrau hyn, ac awgrymwyd sawl ychwanegiad posibl. Roedd rhai o'r farn y dylid dileu rhai o'r rhestrau neu bob un ohonynt er mwyn i weithwyr proffesiynol allu penderfynu ynghylch materion o'r fath, tra bod eraill yn teimlo y dylid nodi'n gliriach na fwriedir iddynt gynnwys popeth.

Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch rôl cyrff heblaw ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol yn y broses o nodi ADY. Cododd rai bryderon ei bod yn bosibl na fydd rhai o'r plant a phobl ifanc y nodwyd ar hyn o bryd bod ganddynt AAA yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ADY.

**Cwestiwn 14 - Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y Swyddog Arweiniol ADY Blynnyddoedd Cynnar a nodir ym mharagraffau 8.40 - 8.47 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn strategol a bod gan y cyfryw swyddogion y profiad a'r arbenigedd priodol i fodloni disgwyliadau'r rôl)?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 51.53%               | 84                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 18.40%               | 30                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 30.06%               | 49                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 163                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 146                    |

Ymatebodd 163 o bobl i gwestiwn 14 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 99 o bobl sylwadau ategol. Er bod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod cefnogaeth cyffredinol i'r rôl a'r canllawiau ym mharagraffau 8.40-8.47, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod y rôl yn rhy fawr i un person. Dywedodd eraill nad yw'r canllawiau'n dangos bod y rôl yn un cwbl strategol wrth nodi'r agweddau gweithredol. Awgrymodd rhai y dylai'r Cod egluro pa gymorth gweithredol sydd ar gael i gefnogi'r swyddog arweiniol ADY. Dywedodd ambell un hefyd y dylai'r Cod bennu arbenigedd, profiad, hyfforddiant neu gymwysterau gorfodol ar gyfer y rôl. Codwyd materion tebyg gan y rheini a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori Llywodraeth Cymru<sup>15</sup>.

<sup>15</sup>Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid

### Cwestiwn 15 - Ydy strwythur a chynnwys Penodau 8 i 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 56.32%               | 98                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 25.29%               | 44                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 18.39%               | 32                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 174                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 135                    |

Ymatebodd 174 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr'. Roedd y mwyafrif yn cytuno bod strwythur a chynnwys Penodau 8 i 12 yn glir. Gwnaeth 114 o ymatebwyr sylwadau i gefnogi eu ateb. Dywedodd rai fod strwythur y penodau'n glir ond bod agweddau ar y cynnwys ychydig yn aneglur, gan gynnwys yr iaith a ddefnyddir. Awgrymwyd bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y cymhwysir y penodau hyn at ddysgwyr penodol (er enghraifft, plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol neu'r rheini sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref) a bod angen rhagor o wybodaeth ym Mhennod 8 am ADY a DDdY yn achos plant cyn-ysgol. Awgrymwyd hefyd bod angen esboniad pellach o ambell derm (er enghraifft, 'dwyn i sylw', 'angen prin', 'camau rhesymol', 'newid sylweddol'). Yn ogystal, gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, beth sy'n digwydd yn achos cofrestrriad deuol, a sut y caiff CDU ei gwblhau'n derfynol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o eglurder ynghylch pryd y dylai awdurdod lleol gynnal CDU yn hytrach nag ysgol neu SAB, er mwyn osgoi anghysonderau daearyddol ac anghytundebau. Roedd rhai yn pryderu hefyd na fyddai'r gofynion a'r disgwyliadau'n ymwneud â chyfraniad seicolegwyr addysg at y broses yn hawdd eu rheoli.

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr fod strwythur presennol Penodau 8 i 12 yn anghydlynol neu awgrymwyd rhaniad gwahanol, yn benodol ymdrin â'r dyletswyddau sy'n ddyledus i bobl ifanc gyda'i gilydd yn hytrach na'u rhannu ar sail y lleoliad a fynyichir gan y person ifanc.

Roedd y rheini a wnaeth sylwadau yn hoffi'r siartiau llif sydd wedi'u cynnwys yn y Cod drafft, ond yn galw am fwy ohonynt.

**Cwestiwn 16 - Ydy'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau gan ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol ar ADY a pharatoi CDU fel y'u nodir ym Mhenodau 8-12 yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 33.33%               | 64                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 37.50%               | 72                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 28.65%               | 55                     |
| 4 | gwag         |  | 0.52%                | 1                      |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 192                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 117                    |

Ymatebodd 192 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr'. Roedd rhaniad gweddol gyfartal rhwng yr ymatebwyr o ran eu barn ynghylch p'un a yw'r amserlenni a nodir ym Mhenodau 8 i 12 yn briodol.

Gwnaeth 160 o ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. Roedd rhai ymatebwyr, yn enwedig rhieni, yn teimlo bod yr amserlenni'n rhy hir - yn enwedig y cyfnod arfaethedig o 12 wythnos ar gyfer awdurdodau lleol. Yn eu barn nhw, nid yw'n briodol i blentyn neu berson ifanc aros mor hir hynny am gynllun statudol a darpariaeth.

Roedd ymatebwyr eraill, sef y rheini mewn ysgol, SAB neu awdurdod lleol gan amlaf, yn pryderu bod yr amserlenni'n rhy fyr naill ai'n gyffredinol neu ar gyfer amgylchiadau penodol. O'r rheini a oedd yn teimlo bod yr amserlenni'n rhy fyr yn gyffredinol, roedd rhai o'r farn na fyddai'r amserlenni'n caniatáu digon o amser i gyflawni'r holl gamau angenrheidiol wrth wneud penderfyniad a llunio CDU. Roedd eraill yn credu y byddai diffyg canfyddedig o adnoddau a chapasiti, yn enwedig capasiti CADYau, yn ei gwneud yn amhosibl cadw at yr amserlenni. O ran amgylchiadau penodol, awgrymodd sawl ymatebydd y byddai oedi o ran cael cymorth allanol neu arbenigol lle bo angen cymorth o'r fath yn golygu na ellid cadw at yr amserlenni. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol mewn amgylchiadau lle'r oedd angen cymorth gan y gwasanaeth iechyd (sydd â'i amserlenni gwahanol ei hun). Awgrymodd rhai ymatebwyr o'r awdurdodau lleol y dylai'r amserlen ar gyfer penderfyniadau gan yr awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth cyfnodau gwyliau ysgol/SAB.

Awgrymwyd hefyd y dylid nodi'r amserlenni mewn siartiau llif neu math arall o ddiagram.

Y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen Cwestiwn 4 - Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd ar gael i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau?

Gofynnwyd i'r rheini a oedd yn ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen 'beth yw eich barn ynglŷn â faint o

amser fydd ar gael i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau?. Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn ymhlith plant a phobl ifanc, gyda rhai'n teimlo bod yr amserlenni'n rhy hir ac eraill yn teimlo eu bod yn iawn. Roedd yr ymateb yn gymysg hefyd ymhlith y rheini a ymatebodd i'r ddogfen hawdd ei darllen, gyda rhai'n teimlo bod yr amserlenni'n iawn ond eraill yn awgrymu nad oeddent yn ddigon hir i gael darlun llawn o'r plentyn neu'r person ifanc.

Adleisiwyd y safbwynt hwn gan y plant, pobl ifanc a rhieni a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori<sup>16</sup>.

**Cwestiwn 17 - Ydy'r gofynion a chanllawiau arfaethedig ym mharagraffau 12.22 – 12.51 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ynghylch pryd mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu SAB yng Nghymru yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |    | 39.62%               | 63                     |
| 2 | Nac ydyn     |    | 25.16%               | 40                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 35.22%               | 56                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 159                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 150                    |

Ymatebodd 150 i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'. Gwnaeth 66 sylwadau ategol.

Cafwyd ymateb cymysg i gwestiwn 17 gyda barn amrywiol ar bu'n a yw'r gofynion a'r canllawiau yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ynghylch pryd mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu SAB yng Nghymru yn briodol. Awgrymodd nifer o'r rheini a ddywedodd 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' fod angen egluro'r derminoleg yn y Cod, megis 'anghenion rhesymol', er mwyn i awdurdodau lleol allu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae hyn yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaed gan rai o'r rheini a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru<sup>17</sup>. Fodd bynnag, dywedodd rai o'r rheini a atebodd 'ydyn' fod y rhan hon o'r bennod yn glir a/neu'n briodol.

Roedd gan nifer o'r ymatebwyr farn ynghylch y cyfeiriad at 'cyfnod o amser rhesymol' i berson ifanc gwblhau cwrs. Cafwyd trafodaeth frwd am hyn yn y

<sup>16</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

<sup>17</sup> Gweler yr adroddiad ar y digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ar gyfer Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft Cymru am ragor o wybodaeth.

digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol hefyd<sup>18</sup>. Holodd rhai o'r ymatebwyr a yw dwy flynedd academiaidd yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol o ran y ddarpariaeth a gynigir gan SAB prif frwd. Ychwanegodd eraill y byddai angen cyfnod hirach o amser ar rai dysgwyr sydd ag ADY cymhleth i gwblhau cwrs.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r rheini sy'n penderfynu pryd y mae angen cynnal CDU yn yr amgylchiadau hyn gael hyfforddiant priodol a dylai fod ganddynt yr wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus.

| <b>Cwestiwn 18 Ydy elfennau cynnwys gorfodol CDU sy'n ofynnol o dan y Cod ADY yn briodol?</b> |              |                                                                                   |                      |                        |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                               |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                             | Ydyn         |  | 59.79%               | 116                    |
| 2                                                                                             | Nac ydyn     |  | 20.10%               | 39                     |
| 3                                                                                             | Ddim yn siwr |  | 20.10%               | 39                     |
|                                                                                               |              |                                                                                   | wedi ateb            | 194                    |
|                                                                                               |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 115                    |

Ymatebodd 194 o bobl y cwestiwn hwn gan ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 107 o bobl sylwadau ategol. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod elfennau cynnwys gorfodol CDU yn briodol. O'r rhain, awgrymodd nifer fach y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau a thempledi i helpu ymarferwyr i lunio CDU ar gyfer dysgwyr ag anghenion gwahanol. Roedd eraill yn teimlo, er bod y cynnwys gorfodol yn angenrheidiol, ei bod yn bwysig rhoi cyfnod priodol o amser i ymarferwyr lunio ac adolygu CDU. O blith y rheini a oedd yn anghytuno, galwodd rai am gynnwys adran ar gyfer dyddiad dechrau'r CDU a diwygio adran 1A.4 ynghylch rhyw. Nododd Comisiynydd Plant Cymru y dylid nodi'r rhyw y mae plant a phobl ifanc yn uniaethu ag ef. Roedd eraill yn teimlo bod y cynnwys gorfodol yn rhy hir ac nad oedd ei angen ar gyfer pob dysgwr, er enghraifft dysgwyr ag anghenion llai cymhleth. Codwyd pryderon hefyd am adran 1A.12 ar faterion galluedd ac a yw'n briodol disgwyl i'r rheini sy'n llunio CDU farnu ynghylch galluedd rheini.

Nid oedd y CDU yn canolbwyntio digon ar y person yn ôl un o bob pump o'r holl ymatebwyr, a gofynnwyd a fyddai modd rhoi'r proffil un dudalen ar y dechrau yn hytrach nag yn adran 1. Cafwyd sylwadau tebyg gan blant a phobl ifanc yn y digwyddiadau ymgysylltu. Pan ofynnwyd iddynt beth arall y dylid ei gynnwys yn y cynllun, yr hyn a awgrymwyd yn aml oedd y pethau y maent yn eu hoffi/ ddim yn eu hoffi neu'r pethau sy'n bwysig iddynt<sup>19</sup>.

<sup>18</sup> Gweler yr adroddiad ar y digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ar gyfer Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft Cymru am ragor o wybodaeth.

<sup>19</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni*

Y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen Cwestiwn 2 - Ydych chi'n hoffi ein syniadau eraill ynghylch beth mae'n rhaid i'r cynllun ei ddweud? a Cwestiwn 3 - Oes gennych chi unrhyw syniadau ynghylch beth arall rydych yn meddwl y dylai ei ddweud?

Cafwyd 16 ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc, ac roedd pob ymateb ond un yn cytuno â'r syniadau ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i'r cynllun ei ddweud. Cafwyd 15 ymateb i'r ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen, ac roedd bron pawb yn cytuno â'r syniadau ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i'r cynllun ei ddweud.

Awgrymodd 12 o'r 16 ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc wybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn y CDU, megis hanes meddygol, trefniadau byw a chredoau crefyddol. Ni wnaeth unrhyw un o'r 15 ymatebydd i'r ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen awgrymu gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn y CDU.

Roedd cefnogaeth gyffredinol hefyd ymhlith y plant, pobl ifanc a rhieni a gymerodd ran yn y gweithdai ymgysylltu pan ofynnwyd iddynt 'Ydych chi'n hoffi ein syniadau eraill ynghylch beth mae'n rhaid i'r cynllun ei ddweud?'<sup>20</sup>

**Cwestiwn 19 - Ydy'r ffurflen safonol orfodol sydd mewn golwg ar gyfer CDU (wedi'i chynnwys yn Atodiad A y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 48.96%               | 94                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 23.96%               | 46                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 27.08%               | 52                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 192                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 117                    |

Ymatebodd 192 o bobl y cwestiwn hwn gan ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 138 o bobl sylwadau ategol.

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y ffurflen safonol orfodol sydd mewn golwg ar gyfer CDU yn briodol, a nodwyd y byddai ffurflen safonol yn sicrhau cysondeb ac yn caniatáu amrywiadau ar gyfer unigolion.

Roedd gweddill yr ymatebion bron yn rhannu'n gyfartal rhwng 'nac ydy' a 'ddim yn siwr'. Yn debyg i'r sylwadau a wnaed i gwestiwn 18, roedd tua hanner yr ymatebwyr a oedd yn teimlo nad yw'r ffurflen yn briodol wedi nodi nad oedd y ffurflen yn addas i blant. Roedd rhai o'r farn bod y ffurflen orfodol

<sup>20</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgynghori â phlant, pobl ifanc a rhieni

yn creu proses fiwrocrataidd ac y byddai'n rhy llafurus i'w chwblhau a'i hadolygu.

| <b>Cwestiwn 20 - Ydy'r canllawiau ym Mhennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?</b> |              |                                                                                   |                      |                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                            |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                          | Ydyn         |  | 58.10%               | 104                    |
| 2                                                                                          | Nac ydyn     |  | 17.88%               | 32                     |
| 3                                                                                          | Ddim yn siwr |  | 24.02%               | 43                     |
|                                                                                            |              |                                                                                   | wedi ateb            | 179                    |
|                                                                                            |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 130                    |

Ymatebodd 179 o bobl y cwestiwn hwn gan ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 86 o bobl sylwadau ategol. Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr fod y canllawiau ym Mhennod 13 yn glir. Roedd y rhan fwyaf o'r pwyntiau a godwyd wedi'u trafod eisoes mewn sylwadau i gwestiynau 18 a 19; fodd bynnag, codwyd rhai pwyntiau ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am gynnwys canllawiau ar amserlenni yn y bennod hon. Gofynnodd rhai o'r rheini nad oedd yn cytuno bod y canllawiau'n glir am eglurder ynghylch sut y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyfrannu at y broses CDU.

| <b>Cwestiwn 21 - Ydy'r canllawiau ar gludiant ym mharagraffau 13.74 - 13.76 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?</b> |              |                                                                                     |                      |                        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                                                           |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                                                         | Ydyn         |  | 50.60%               | 85                     |
| 2                                                                                                                         | Nac ydyn     |  | 14.29%               | 24                     |
| 3                                                                                                                         | Ddim yn siwr |  | 35.12%               | 59                     |
|                                                                                                                           |              |                                                                                     | wedi ateb            | 168                    |
|                                                                                                                           |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 141                    |

Ymatebodd 168 o bobl y cwestiwn hwn gan ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 73 o bobl sylwadau ategol. Cytunodd hanner yr ymatebwyr fod y canllawiau'n briodol, a gwnaeth rai dynnu sylw at bwysigrwydd deall gofynion mynediad unigolion wrth ystyried trefniadau teithio.

O'r rheini a oedd yn weddill, roedd y mwyafrif 'ddim yn siwr' a gwnaeth nifer fach ddweud 'nac ydy'. Fodd bynnag, dywedodd hanner y rheini nad oedd yn teimlo bod y canllawiau'n briodol y dylai'r rhan hon o'r CDU fod yn orfodol.

**Cwestiwn 22 - Ydy'r amserlen a'r eithriadau sydd mewn golwg ar gyfer personau perthnasol perthnasol yn cydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu help arall (o dan Adran 65 Deddf 2018) yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 42.50%               | 68                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 20.63%               | 33                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 36.88%               | 59                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 160                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 149                    |

Ymatebodd 160 o bobl y cwestiwn hwn gan ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 92 o bobl sylwadau ategol. Roedd y mwyafrif a ymatebodd naill ai'n cytuno bod yr amserlen a'r eithriadau sydd mewn golwg yn briodol neu ddim yn siwr..

O'r rheini a oedd yn cytuno bod yr amserlenni'n briodol, cododd rai bryderon ynghylch a fyddai gwasanaethau'r GIG yn gallu eu cyflawni o ystyried yr amseroedd aros presennol a bod angen i bob rhanddeiliad ddeall yr amserlenni hyn a chydymffurfio â nhw.

Roedd pryderon tebyg gan y rheini a ddywedodd 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'. Soniwyd yn benodol am yr eithriadau ym mharagraffau 15.7 a 15.12. Dywedodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn pryderu os nad yw'r amserlenni'n realistig ac yn gyflawnadwy, er enghraifft lle nad oes gan y GIG wybodaeth am ddysgwyr eisoes, y gallai hyn arwain at or-ddefnyddio'r eithriadau. Ategodd eraill hyn drwy ddweud bod y paragraffau'n rhy amwys yn eu barn nhw ac yn agored i gael eu dehongli'n wahanol gan wahanol bobl. Codwyd y pryderon hyn hefyd yn y gweithdy ar amserlenni yn y digwyddiadau ymgynghori ym mis Mawrth<sup>21</sup>.

Serch hynny, cafwyd ymateb gwahanol iawn gan y plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y digwyddiadau ymgysylltu. Roedden nhw'n pryderu bod yr amserlen yn rhy hir ac mai gorau po gyntaf i'r personau perthnasol ymateb er mwyn gallu rhoi cynllun yn ei le'n gyflymach<sup>22</sup>.

<sup>21</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid

<sup>22</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

Y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen: *Cwestiwn 5 - Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan bobl i ateb cwestiwn awdurdod lleol am y plentyn neu'r person ifanc a sut i'w helpu?*

Cafwyd 16 ymateb i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo mai dyma'r cyfnod amser cywir i ateb cwestiwn awdurdod lleol. Cafwyd 15 ymateb i'r ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen. Gwnaeth bron pawb a ymatebodd i gwestiwn 5 gytuno ei fod yn gyfnod priodol o amser.

**Cwestiwn 23 - Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig y mae'n rhaid i gorff y GIG hysbysu eraill am ganlyniad atgyfeiriad iddo (o dan Adran 20 o Ddeddf 2018) i nodi a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol yn briodol?**

|   |              |                                                                                    | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |   | 36.18%               | 55                     |
| 2 | Nac ydyn     |   | 21.71%               | 33                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 42.11%               | 64                     |
|   |              |                                                                                    | wedi ateb            | 152                    |
|   |              |                                                                                    | wedi hepgor          | 157                    |

Ymatebodd 152 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 71 o bobl sylwadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ansicr p'un a yw'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig yn briodol ai peidio. Roedd rhai o'r rheini a ddywedodd 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' ac a ddarparodd sylwadau i gefnogi eu hateb yn teimlo bod yr amserlen yn rhy fyr ac nad oes modd cadw ati o ystyried amseroedd aros presennol y GIG a gofynion eraill y GIG o ran amserlenni.

Yn ogystal, holwyd beth a olygir wrth 'ymateb' ac, yn dibynnu ar yr ystyr, pa mor briodol yw'r cyfnod arfaethedig. Roedd eraill o'r farn bod y disgrifiad o'r eithriad yn anneglur. Er enghraifft, dywedodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru fod yr eithriad sy'n berthnasol i'r ddyletswydd yn amwys ac yn benagored ac yn ei gwneud hi'n hawdd iawn i'r corff beidio â chadw at yr amserlen hon. Dywedodd hefyd fod angen i'r bennod nodi'n gliriach beth y mae'r eithriad yn ei olygu/ddim yn ei olygu.

Codwyd yr un pryderon yn ystod y gweithdai<sup>23</sup> ar lechyd a Rôl y rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) yn y cyfnod ymgynghori.

<sup>23</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

Fodd bynnag, pan ofynnwyd i blant a phobl ifanc am eu barn ynghylch rhoi 6 wythnos i'r gwasanaethau iechyd roi gwybod i bobl sut y gallant helpu yn yr ysgol,<sup>24</sup> dywedodd dros hanner ohonynt fod yr amserlen yn rhy hir.

Y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen: Cwestiwn 6 - Beth yw eich barn chi ynglŷn â pha mor hir y bydd gan y gwasanaethau iechyd i roi gwybod i bobl a oes ffordd y gallen nhw fod o gymorth?

Cafwyd 15 ymateb i'r cwestiwn hwn yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc ac 14 ymateb i'r un cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod 6 wythnos yn ddigon o amser i'r gwasanaethau iechyd ymateb.

| <b>Cwestiwn 24 - Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y SACDA a nodir ym mharagraffau 15.37 – 15.53 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn un strategol a bod gan swyddogion o'r fath brofiad ac arbenigedd priodol)?</b> |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1                                                                                                                                                                                                                                                                                | Ydyn         |  | 47.17%               | 75                     |
| 2                                                                                                                                                                                                                                                                                | Nac ydyn     |  | 16.98%               | 27                     |
| 3                                                                                                                                                                                                                                                                                | Ddim yn siwr |  | 35.85%               | 57                     |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                  |              |                                                                                     | wedi ateb            | 159                    |
|                                                                                                                                                                                                                                                                                  |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 150                    |

Ymatebodd 159 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 93 o bobl sylwadau pellach. Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr fod y canllawiau ar y rôl yn briodol.

Dywedodd rai o'r rheini y dylai'r cyfeiriad at 'ymarferydd meddygol' gael ei ddiwygio i 'ymarferydd clinigol' er mwyn cydnabod cylch gorchwyl ehangach y rôl. Roedd llawer o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau yn teimlo y dylai'r canllawiau ar y rôl gynnwys yr angen i sefydlu strwythurau, trefniadau adrodd a systemau priodol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'r byrddau iechyd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Y farn gyffredinol oedd bod y rôl yn un eang ac felly y bydd angen cefnogaeth.

Adlewyrchwyd yr adborth hwn yn y gweithdai ar Iechyd a Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)<sup>25</sup> yn nigwyddiadau ymgynghori

<sup>24</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

<sup>25</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid

mis Mawrth. Cyfeiriwyd yn rheolaidd at ba mor sylweddol yw'r rôl a pha mor bwysig yw'r elfennau hyn er mwyn helpu i'w chyflawni'n effeithiol.

### Cwestiwn 25 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 16 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 59.66%               | 105                    |
| 2 | Nac ydyn     |  | 21.02%               | 37                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 18.75%               | 33                     |
| 4 | gwag         |  | 0.57%                | 1                      |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 176                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 133                    |

Ymatebodd 176 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 108 o bobl sylwadau pellach. Cytunodd dros hanner yr ymatebwyr fod cynnwys a strwythur Pennod 16 yn glir. Roedd gweddill yr ymatebion yn rhannu'n weddol gyfartal rhwng 'nac ydyn' a 'ddim yn siwr'. Roedd y rheini a oedd yn cytuno bod y cynnwys a'r strwythur yn glir yn teimlo bod y siart llif yn arbennig o ddefnyddiol o ran sicrhau eglurder.

Roedd rhai o'r bobl a oedd yn ansicr neu'n anghytuno o'r farn bod angen mwy eglurder ynghylch yr amserlenni ar gyfer adolygiadau, yn enwedig y diffiniadau ym mharagraff 16.12 am y cyfnodau adolygu. Dywedodd eraill fod y bennod yn rhy hir ac y gallai fod yn fwy cryno.

### Cwestiwn 26 - Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer cwblhau adolygiadau mewn ymateb i gais gan blentyn, ei riant, person ifanc neu gorff y GIG (a nodir ym mharagraff 16.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 47.95%               | 82                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 25.73%               | 44                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 26.32%               | 45                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 171                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 138                    |

Ymatebodd 171 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 111 o bobl sylwadau pellach.

Mae bron i hanner y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod y cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer cwblhau adolygiadau mewn ymateb i gais gan blentyn, ei riant, person ifanc neu gorff GIG yn briodol.

Dyweddodd rai o'r rheini a oedd yn cytuno â'r cyfnod arfaethedig fod hyn yn cefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac y byddai'n golygu bod yr adolygiadau'n cael eu cynnal yn brydlon. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru eu bod yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu amserlenni byrrach ar gyfer y broses CDU. Yn eu barn nhw, mae'n bwysig sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar gymorth cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl. Mae hyn yn allweddol i helpu dysgwyr agored i niwed gyrraedd eu potensial llawn.

Roedd eraill yn cytuno ond yn cydnabod efallai na fyddai'n gyflawnadwy yn dibynnu ar nifer y plant neu bobl ifanc ag ADY mewn ysgol, SAB neu awdurdod lleol. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a oedd yn cytuno ac yn anghytuno, yn teimlo y dylid newid y cyfnod ar gyfer yr awdurdod lleol o 7 wythnos i 35 diwrnod tymor ysgol/SAB er mwyn sicrhau tegwch ar gyfer ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol.

Mynegodd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn anghytuno bryderon fod yr amserlenni'n rhy fyr. Dywedodd rai fod angen mwy o amser i gasglu gwybodaeth gan nifer o asiantaethau ar gyfer adolygiad, yn enwedig y rheini sy'n wynebu materion capasiti ac adnodd.

Roedd y sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gyson â sylwadau'r rheini a gymerodd ran yn y gweithdy ar amserlenni yn y digwyddiadau ymgynghori ar y Cod ym mis Mawrth<sup>26</sup>.

*Cwestiwn 7 yn y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen - Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i adolygu cynlluniau?*

Mewn gwrthgyferbyniad, pan ofynnwyd i blant a phobl ifanc yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu<sup>27</sup> beth oeddent yn ei feddwl ynghylch rhoi cyfnod o 7 wythnos i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol fynd ati i adolygu cynlluniau, dim ond 18% oedd yn cefnogi'r cynnig hwn. Roedd y mwyafrif yn ei chael hi'n anodd deall pam y byddai adolygiad yn cymryd gymaint o amser.

Roedd y rheini a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc yn ategu'r sylwadau hyn, ac yn teimlo bod 7 wythnos yn rhy hir. Fodd bynnag, roedd y rheini a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghori hawdd ei ddarllen yn teimlo ei fod yn ddigon hir.

---

<sup>26</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid

<sup>27</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

### Cwestiwn 27 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 55.06%               | 87                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 20.25%               | 32                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 24.68%               | 39                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 158                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 151                    |

Ymatebodd 158 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn gwybod', a gwnaeth 64 o bobl sylwadau ategol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn teimlo bod Pennod 17 yn glir ac yn ddealladwy ar y cyfan. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai fod yn amhosibl rheoli'r rôl yr awdurdod lleol o ran ailystyried ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am CDU oherwydd materion yn ymwneud â chyllid a chapasiti.

Cododd rai bobl bryderon ynghylch ymarferoldeb y gofyniad a osodir ar awdurdodau lleol gan y Cod drafft i ymgynghori ag seicolegwyr addysg cyn penderfynu. Holwyd sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, a nodwyd yr anawsterau a wynebwr wrth geisio cael gafael ar y gwasanaethau hyn.

Soniodd rai ymatebwyr am strwythur Pennod 17 gan ofyn bod y bennod hon yn cynnwys is-adran benodol yn ymwneud â SAB i gyd-fynd â'r is-adran ar gyfer ysgolion a gynhelir, er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n gyson ac yn glir ar gyfer gwahanol leoliadau.

**Cwestiwn 28 - Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer awdurdod lleol sy'n ailystyried CDU ysgol (a nodir ym mharagraff 17.20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 50.68%               | 74                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 22.60%               | 33                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 26.71%               | 39                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 146                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 163                    |

Ymatebodd 146 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn gwybod'. Roedd y mwyafrif yn cytuno bod y cyfnod arfaethedig ar gyfer ailystyried CDU ysgol yn briodol.

Gwnaeth 65 o ymatebwyr sylwadau. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn ond eisiau dweud bod y cyfnod penodedig o saith wythnos yn briodol. Roedd eraill yn teimlo bod y cyfnod hwn yn rhy hir - fel y gwnaeth nifer fawr o'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithdai<sup>28</sup> - ond roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn bryderon ynghylch a yw'r cyfnod amser yn gyflawnadwy. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn tueddi i godi'r un materion a'r rheini a godwyd ynghylch amserlenni'n fwy cyffredinol, fel materion yn ymwneud â chyllid neu gapasiti'r awdurdod lleol i gefnogi'r gwaith hwn; effaith ceisio mewnbwn allanol; a sut y gallai cynnwys gwyliau'r ysgol effeithio ar y cyfnod o 7 wythnos.

Gan y byddai ceisiadau i ailystyried CDU yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i anghytundebau, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y bydd angen i'r awdurdodau lleol ymdrin â hwy yn yr un modd â'r broses gychwynnol ar gyfer nodi ADY a llunio CDU. Felly, awgrymwyd bod cyfnod o 12 wythnos yn fwy priodol.

Y ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc a'r fersiwn hawdd ei darllen: *Cwestiwn 8 - Beth yw eich barn chi ynglŷn â faint o amser fydd gan awdurdodau lleol i edrych unwaith eto ar gynlluniau sydd wedi'u paratoi gan ysgolion?*

Roedd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc yn rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rheini a oedd yn teimlo bod y cyfnod penodedig yn briodol a'r rheini a oedd yn teimlo ei fod yn rhy hir. Serch hynny, roedd un neu ddau yn teimlo ei fod yn rhy fyr. Roedd y mwyafrif llethol a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghori hawdd ei darllen yn teimlo bod yr amserlen yn briodol.

<sup>28</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft - Crynodeb o'r adborth o'r digwyddiadau i ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

**Cwestiwn 29 – Ydy'r egwyddorion a'r canllawiau a roddir ym Mhennod 18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar gyfarfodydd am ADY a CDU yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 61.02%               | 108                    |
| 2 | Nac ydyn     |  | 19.77%               | 35                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 19.21%               | 34                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 177                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 132                    |

Ymatebodd 177 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn gwybod', a gwnaeth 135 o bobl sylwadau ategol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno bod yr egwyddorion a'r canllawiau a ddarperir ym Mhennod 18 yn briodol ac yn croesawu'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cododd nifer fach o ymatebwyr rai pryderon ynghylch gallu CADYau i drefnu a mynychu nifer fawr o gyfarfodydd CDU ar ben eu hymrwymadau addysgu.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch y cyfeiriad yn y bennod hon at weithwyr proffesiynol yn mynychu cyfarfodydd. Teimlwyd y gallai hyn greu pwysau ychwanegol i'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n cael cais i fynychu cyfarfod CDU neu gyfrannu gwybodaeth berthnasol i lywio cyfarfod.

**Cwestiwn 30 - Ydy'r canllawiau ym Mhennod 19 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar gynorthwyo plant a phobl ifanc gyda phontio effeithiol yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 55.21%               | 106                    |
| 2 | Nac ydyn     |  | 25.00%               | 48                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 19.79%               | 38                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 192                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 117                    |

Roedd y mwyafrif o'r 192 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' yn cytuno bod y canllawiau ym Mhennod 19 y Cod ADY drafft ar gefnogi plant a phobl ifanc i drosglwyddo'n effeithiol yn briodol. Darparodd 147 o ymatebwyr sylwadau ategol, ac roedd nifer ohonynt yn teimlo bod y canllawiau'n glir, yn benodol, yn ddefnyddiol ac yn briodol ac y byddant yn helpu i gynllunio ar gyfer proses drosglwyddo effeithiol a'i

chefnogi. Roedd cefnogaeth eang i'r canllawiau ar gynnwys sawl asiantaeth yn y broses a'r pwyslais ar gynllunio cynnar ac ymlaen llaw.

Awgrymodd y rheini a oedd yn teimlo nad yw'r canllawiau'n briodol fod angen mwy o fanylion er mwyn sicrhau trosglwyddo effeithiol. Roedd nifer o'r sylwadau beirniadol ar y bennod hon yn ymwneud ag awgrymiadau ar gyfer newidiadau i adrannau penodol.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon am y diffyg amserlenni penodol a rhagnodedig yn y bennod hon a oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, i sicrhau bod y gwaith o gynllunio proses trosglwyddo'n cael ei wneud mewn modd amserol. Gofynnodd sawl person am esboniadau pellach o ystyr ymadroddion fel 'ymhell ymlaen llaw', 'mewn da bryd', 'digon o amser', 'amser ychwanegol' a 'cyn gynted â phosibl'. Nododd llawer o'r ymatebwyr hepgoriad yn 19.16 gan nad yw'n sôn am y cyfnod trosglwyddo allweddol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 (o flwyddyn 6 i flwyddyn 7).

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oes digon o fanylder yn y Cod ynghylch trosglwyddo o addysg orfodol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu'n amserol a sicrhau cysondeb. Yn ôl nifer o bobl, dylai'r Cod gydnabod pwysigrwydd cyngor da ar yrfaoedd a rôl hanfodol gwasanaethau gyrfaoedd yn y gwaith o gynllunio prosesau trosglwyddo. Roedd galwadau clir gan lawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru a Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad, i'r canllawiau ar gyngor gyrfaoedd gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod cynghorwyr gyrfaoedd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd trosglwyddo allweddol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu am allu staff iechyd a cholegau i gefnogi'r broses drosglwyddo, a gofynnwyd am ragor o fanylder am eu rolau mewn cyfarfodydd ac o ran darparu gwybodaeth. Roedd nifer hefyd yn teimlo bod angen canllawiau pellach i sicrhau bob pobl ifanc yn trosglwyddo i fyd oedolion yn ddidrafferth ac i gefnogi pobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu amryfal a chymhleth.

### Cwestiwn 31 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 60.63%               | 97                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 20.63%               | 33                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 18.75%               | 30                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 160                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 149                    |

Roedd y mwyafrif o'r 160 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' yn cytuno bod cynnwys a strwythur

Pennod 20 o'r Cod ADY drafft yn glir. Er bod rhai o'r 72 o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ategol yn teimlo bod cynnwys a strwythur pennod 20 yn glir ac yn darparu dull gweithredu cyson ar gyfer trosglwyddo CDUau, roedd eraill yn teimlo bod y bennod yn ei chyfanrwydd yn anodd i'w dilyn a'i dehongli. Darparodd nifer o ymatebwyr adborth ar rannau penodol o'r bennod lle'r oedd angen eglurhad pellach yn eu barn nhw.

Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau y gallai paragraffau penodol yn y bennod fod yn gliriach, fel y paragraffau rhagarweiniol a'r canllawiau ar y dyletswyddau sy'n berthnasol i drosglwyddo plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol neu sydd wedi peidio â derbyn gofal. Roedd yna alw hefyd am ganllawiau ychwanegol ar fathau eraill o drosglwyddiadau a allai ddigwydd, gan gynnwys pan fydd CDU yn trosglwyddo o ysgol i awdurdod, ac fel arall, a phan fydd CDU yn trosglwyddo i Gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal.

**Cwestiwn 32 - Ydy'r gofynion y bwriedir eu cynnwys mewn rheoliadau i drosglwyddo CDU i SAB (fel y'u disgrifir ym mharagraffau 20.12 - 20.17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 54.30%               | 82                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 9.93%                | 15                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 35.76%               | 54                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 151                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 158                    |

Roedd dros hanner yr 151 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' yn cytuno bod y gofynion y bwriedir eu cynnwys mewn rheoliadau mewn perthynas â cheisiadau i drosglwyddo CDU i SAB yn briodol. Gwnaeth 51 o ymatebwyr sylwadau ategol.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y derminoleg wahanol ar gyfer amserlenni h.y. '20 diwrnod yn ystod y tymor' a '4 wythnos', a'r eglurhad o'r broses, yn ddryslyd ac yn anodd eu dehongli. Awgrymodd ambell un y dylid cynnwys enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol lle nad yw'n bosibl i'r SAB ymateb o fewn 20 diwrnod yn ystod y tymor.

Dywedodd rhai ymatebwyr na fydd 20 diwrnod yn ystod y tymor yn ddigon i SAB ystyried, trafod ac ymateb yn briodol i gais yr awdurdod lleol. Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch pryd y gall awdurdod lleol ofyn bod CDU yn cael ei drosglwyddo i SAB a phryd y mae hyn yn digwydd, a hefyd am ganllawiau ar drosglwyddo gwybodaeth yn gynnar. Roedd rhai'n teimlo y gallai fod goblygiadau ymarferol pe bai cais yn cael ei wneud ar yr adeg anghywir yn

ystod y broses drosglwyddo/ymrestru pan fydd asesiadau'n cael eu gwneud, ac y gallai hyn olygu na fydd SAB yn gallu ymateb o fewn 20 diwrnod, yn enwedig os oes gan berson ifanc anghenion cymhleth.

Roedd eraill yn teimlo y dylid cynnwys templed ffurfiol yn y Cod ar gyfer y cais ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol i Weinidogion Cymru. Dywedodd ambell un y dylai fod man canol ar ôl i SAB wrthod derbyn cais awdurdod lleol i gynnal CDU cyn y gall atgyfeiriad gael ei wneud i Weinidogion Cymru. Roedd rhai o'r farn y gallai'r broses hon gael ei gweld fel un sy'n achosi gwrthdaro ac yn wrthgynhyrchol o ran y cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a SAB.

**Cwestiwn 33 - Ydy'r trefniadau y bwriedir eu cynnwys yn y rheoliadau mewn perthynas â'r holl achosion eraill o drosglwyddo (fel y'u disgrifir ym mharagraffau 20.18 – 20.21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?**

|   |              |                                                                                    | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |   | 51.75%               | 74                     |
| 2 | Nac ydyn     |   | 11.19%               | 16                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 37.06%               | 53                     |
|   |              |                                                                                    | wedi ateb            | 143                    |
|   |              |                                                                                    | wedi hepgor          | 166                    |

Roedd ychydig dros hanner yr 143 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' yn cytuno bod y trefniadau y bwriedir eu cynnwys yn y rheoliadau mewn perthynas â'r holl achosion eraill o drosglwyddo yn briodol. Gwnaeth 69 o ymatebwyr sylwadau ategol, ond gwnaeth bron hanner ohonynt benderfynu peidio ag dweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'.

Roedd rhai o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau yn teimlo bod y trefniadau'n glir, yn rhesymol ac yn briodol. Fodd bynnag, roedd nifer o'r farn eu bod yn anodd eu deall ac felly nid oeddent yn gallu barnu a yw'r trefniadau'n briodol ai peidio. Roedd eraill yn teimlo nad oeddent yn gallu ateb y cwestiwn hwn heb weld rhagor o wybodaeth am y rheoliadau.

Yn ôl rhai ymatebwyr, nid yw 'yn brydlon' yn ddigon penodol a gallai gael ei ddehongli'n wahanol gan wahanol bobl. Awgrymodd nifer fod angen amserlenni pellach er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r dyletswyddau hyn. Gofynnodd eraill beth fyddai'n canlyniadau pe na weithredir yn brydlon.

Roedd pryderon penodol bod y trefniadau a ddisgrifir yn 20.20 a 20.21 mewn perthynas â dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau lle mewn ysgol neu sefydliad penodol yn aneglur. Roedd rhai'n teimlo y byddai enghraifft ymarferol neu siart llif yn ddefnyddiol. Cafwyd nifer o sylwadau hefyd ynghylch p'un a ddylid

pennu terfyn amser ar gyfer y broses yn 20.21 lle caiff yr awdurdod lleol drefnu bwyd a llety er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc allu barhau i fynychu'r ysgol neu'r sefydliad a enwir yn y CDU hyd nes ei bod yn bosibl diwygio'r CDU.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon hefyd am y diffyg eglurder ynghylch pa fesurau dros dro y mae angen i'r awdurdodau lleol eu rhoi yn eu lle yn ystod y broses adolygu, a gofynnwyd a ellid cynnwys cyfeiriadau at amserlenni perthnasol o rannau eraill o'r Cod yn yr adran hon neu yn y rheoliadau.

| <b>Cwestiwn 34 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?</b> |              |                                                                                   |                      |                        |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                               |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                             | Ydyn         |  | 62.58%               | 102                    |
| 2                                                                                             | Nac ydyn     |  | 17.18%               | 28                     |
| 3                                                                                             | Ddim yn siwr |  | 20.25%               | 33                     |
|                                                                                               |              |                                                                                   | wedi ateb            | 163                    |
|                                                                                               |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 146                    |

Ymatebodd 190 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 56 o bobl sylwadau pellach.

Cytunodd ddau draean o'r ymatebwyr fod cynnwys a strwythur Pennod 21 yn glir. Er iddynt gydnabod bod y canllawiau'n glir, dywedodd rai o'r ymatebwyr hynny y gallai fod yn ddefnyddiol cael arweiniad pellach ar bryd y bydd y ddyletswydd i gynnal CDU yn peidio er mwyn lleihau anghytundebau. Roedd gweddill yr ymatebwyr yn rhannu'n gyfartal rhwng 'nac ydyn' a 'ddim yn siwr'. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd yn ymwneud â thegwch a sut y byddai corff yn dehongli'r bennod hon wrth benderfynu i beidio â chynnal CDU mwyach. Teimlwyd bod diffyg eglurder yn y bennod er mwyn sicrhau cysondeb.

**Cwestiwn 35 – Ydy'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud cais am ailystyriaeth (a ddisgrifir yn 21.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 56.60%               | 90                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 16.98%               | 27                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 26.42%               | 42                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 159                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 150                    |

Ymatebodd 178 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn gwybod', a gwnaeth 52 o bobl sylwadau pellach.

Atebodd dros dri chwarter yr ymatebwyr 'ydy' neu 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn. Nododd rhai a oedd yn cytuno â'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud cais am ailystyriaeth ei fod yn briodol gan y bydd y plentyn, ei rieni, neu'r person ifanc eisoes wedi bod yn rhan o'r broses adolygu a arweiniodd at y penderfyniad i beidio â chynnal y CDU.

Esboniodd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cyfnod o amser eu bod yn teimlo ei fod yn afrealistig. Er enghraifft, nododd un awdurdod lleol ei fod yn cydnabod ei bod yn bwysig pennu amserlen glir ar gyfer penderfyniadau, ond bod yn rhaid iddi fod yn realistig ac yn gynaliadwy er mwyn sicrhau'r canlyniad iawn. Wnaeth eraill ddim gwneud sylw am briodoldeb yr amserlen, ond fe wnaethant grybwyll bod y disgrifiad yn ddryslyd, a chwestiynwyd a oedd yr amserlenni ond yn berthnasol i'r tymor ysgol.

**Cwestiwn 36 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 22 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 45.11%               | 60                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 12.03%               | 16                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 42.86%               | 57                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 133                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 176                    |

Ymatebodd 133 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'. Roedd y nifer a oedd yn cytuno bod cynnwys a strwythur Pennod 22 yn glir yn sylweddol fwy na'r nifer nad oeddent yn cytuno, ond

nododd nifer fawr o ymatebwyr nad oeddent yn siwr am hyn, ac ni atebwyd y cwestiwn o gwbl gan y mwyafrif a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Dim ond 23 o ymatebwyr a gynigiodd sylwadau am y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd nifer fach o'r farn bod angen eglurder pellach ar rai rhannau o'r bennod, ac roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch y gwahaniaeth rhwng CDU a gynhelir a CDU a gedwir. Roedd ambell un am gael gwybodaeth bellach am yr hyn a olygir wrth "trefnu DDdY briodol" a rôl byrddau iechyd mewn perthynas â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth.

**Cwestiwn 37 – Ydy'r cynigion ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â phenderfynu a fydd hi'n angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc dan gadwad pan fydd yn cael ei ryddhau yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 45.19%               | 61                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 11.85%               | 16                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 42.96%               | 58                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 135                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 174                    |

Ymatebodd 135 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'. Roedd llawer mwy o bell ffordd yn cytuno â'r cynigion nag a oedd yn anghytuno, ond roedd llawer yn ansicr am y mater, ac ni atebwyd y cwestiwn o gwbl gan y mwyafrif a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Dim ond 22 o ymatebwyr a gynigiodd sylwadau llawnach am y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd nifer fach, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, o'r farn y dylid cynnal CDU ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc a gedwir yn gaeth ar ôl eu rhyddhau, neu y dylai fod yna ragdybiaeth o blaid gwneud hynny. Nododd eraill y bydd y mynediad cyfyngedig i'r plant a'r bobl ifanc hyn, capasiti cyfyngedig awdurdodau lleol, ac absenoldeb tebygol mewnbyn gwasanaethau arbenigol, yn gwneud y penderfyniadau hyn yn rhai anodd iawn.

**Cwestiwn 38 – Ydy'r cynigion ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw a dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y disgrifir ym mharagraffau 22.45 – 22.74 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 44.78%               | 60                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 8.96%                | 12                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 46.27%               | 62                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 134                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 175                    |

Ymatebodd 134 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'. Unwaith eto, roedd y nifer a oedd yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y rheoliadau yn sylweddol fwy na'r nifer nad oeddent yn cytuno, ond yn achos cyfran uchel nid oeddent yn siwr neu ni atebwyd y cwestiwn. Dim ond 13 o ymatebwyr a gynigiodd sylwadau llawnach am y cwestiwn hwn. Gofynnodd rhai am eglurder pellach ar y diffiniad o "awdurdod lleol perthnasol", gwybodaeth bellach am alluedd a chydsyniad mewn perthynas â phobl ifanc o fewn y lleoliad hwn, a goblygiadau'r bennod hon o ran y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â chydlynwyr cynlluniau gofal a thriniaeth iechyd meddwl. Nododd y Comisiynydd Plant unwaith eto y byddai'n hoffi gweld awdurdodau lleol yn gweithredu ar y sail bod angen rhesymol am addysg a hyfforddiant bob amser mewn perthynas â'r garfan hon, a gofynnodd am i bwyslais cryfach gael ei roi ar gynllunio amlasiantaethol a chynllunio prosesau trosglwyddo yn achos y plant a'r bobl ifanc hyn.

**Cwestiwn 39 – Ydy'r gofynion o ran amserlenni ar gyfer gweithredu'n "brydlon" mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY a pharatoi CDU ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw (fel y nodir ym Mhennod 22) yn briodol, yn hytrach na chael gofyniad hefyd i gydymffurfio o fewn cyfnod penodol yn amodol ar eithriad neu eithriadau?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 45.80%               | 60                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 10.69%               | 14                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 43.51%               | 57                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 131                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 178                    |

Ymatebodd 131 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr'. Roedd llawer mwy o bell ffordd yn cytuno â'r cynigion nag a oedd yn anghytuno, ond yn achos y rhan fwyaf nid oeddent yn siwr neu ni atebwyd y cwestiwn.

Cynigiodd 29 o ymatebwyr sylwadau llawnach am y cwestiwn hwn. Roedd llawer o'r rhain yn gefnogol i'r gofyniad i weithredu'n brydlon, gan nodi y byddai cadw at gyfnod penodol yn arbennig o anodd yng nghyd-destun unigolion a gedwir yn gaeth. Fodd bynnag, fel ag yn achos gofynion eraill o ran amserlenni yn y Cod drafft, gofynnodd rhai am eglurder pellach ar y term "prydlon". Roedd eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, yn teimlo y byddai'n annheg trin unigolion a gedwir yn gaeth yn wahanol i unigolion eraill drwy beidio â phennu cyfnod penodol. Gwnaeth y Comisiynydd Plant y pwynt ychwanegol y gallai rhai o'r anawsterau a allai godi wrth wneud penderfyniadau am unigolion a gedwir yn gaeth godi hefyd mewn perthynas â grwpiau eraill o blant a phobl ifanc. Ac eto, mewn achosion felly, ystyrir bod yr eithriad cyffredinol i bennu cyfnodau penodol yn sicrhau hyblygrwydd digonol.

**Cwestiwn 40 - Ydy'r canllawiau ym Mhennod 23 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar blant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 48.91%               | 67                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 16.06%               | 22                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 35.04%               | 48                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 137                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 172                    |

Ymatebodd 137 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 46 sylwadau ategol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau ym Mhennod 23 y Cod ADY drafft, sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn amgylchiadau penodol, yn briodol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr ymatebwyr hefyd yn teimlo bod angen eglurder pellach yn rhai o'r canllawiau a mwy o fanylion ymarferol ar y rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg heblaw yn yr ysgol ac addysg ddewisol yn y cartref.

Gwnaeth ambell un sylwadau am y derminoleg yn y bennod hon, yn benodol yr ymadrodd 'gallai fod yn briodol', gan nodi bod hyn yn annelwig ac yn agored i ddehongliad personol. Roedd themâu eraill a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â darparu gwybodaeth a chanllawiau am drefniadau rhwng Cymru a Lloegr o ran Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal, CDUau, DDdY a'r broses bontio.

**Cwestiwn 41 - Ydy'r wybodaeth a nodir ym Mhennod 24 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY am rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynnydd ADY yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 47.12%               | 90                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 34.55%               | 66                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 18.32%               | 35                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 191                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 118                    |

Ymatebodd 191 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn gwybod'. Gwnaeth 178 sylwadau ategol. Atebodd y rhan fwyaf 'ydy',

sy'n awgrymu bod yr wybodaeth ym Mhennod 24 am rolau a chyfrifoldebau CADYau yn briodol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y gellid darparu mwy o wybodaeth i ddisgrifio rôl CADYau mewn gwahanol leoliadau addysg, yn enwedig y rheini mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach. Yn gysylltiedig â hynny awgrymwyd y bydd rôl CADY yn wahanol mewn ysgol gynradd i'r rôl mewn ysgol uwchradd.

Cydnabuwyd gan lawer mai rôl strategol yw rôl y CADY, yn fwy felly o gymharu â rôl bresennol y cydlynnydd anghenion addysgol arbennig. Roedd consensws ymhlith yr ymatebwyr y dylai CADYau fod ar yr uwch-dîm rheoli er mwyn cyflawni cyfrifoldebau rôl y CADY yn briodol. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau tebyg a wnaed gan lawer yng ngweithdai CADY digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru<sup>29</sup>. Awgrymodd llawer fod angen eglurder ar rai termau, er enghraifft beth a olygir wrth 'cymwysterau sylweddol' wrth gyfeirio at CADYau ac 'amser digonol' i gyflawni'r rôl.

**Cwestiwn 42 - Ydy'r gofynion a osodir ym Mhennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau i osgoi a datrys anghydfod yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 41.00%               | 82                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 39.50%               | 79                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 19.50%               | 39                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 200                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 109                    |

Ymatebodd 200 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr' a gwnaeth 146 sylwadau ategol.

Yn gyffredinol, nododd y rheini a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn croesawu unrhyw ddarpariaeth i osgoi a datrys anghytundebau a allai godi. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch ai awdurdod lleol fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaethau hyn, a chwestiynwyd a fyddai awdurdod lleol yn gallu gweithredu'n gwbl annibynnol neu ddiudedd, a mynegwyd pryderon penodol am hyn yng nghyd-destun pwysau ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau tebyg a wnaed gan lawer yng ngweithdai digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru am gyngor a gwybodaeth, datrys anghytundeb ac eiriolaeth annibynnol<sup>30</sup>.

<sup>29</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

<sup>30</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

Fe'i gwnaed yn glir gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai asiantaethau annibynnol ddylai ddarparu'r trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail anghenion y dysgwr yn hytrach nag ar sail costau.

Roedd ambell un, a ymatebodd ar ran awdurdodau lleol, yn teimlo nad oedd yn briodol ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am ddatrys anghytundebau sy'n ymwneud â sefydliadau addysg bellach, gan nad yw'r rhain yn dod o dan gylch awdurdod awdurdodau lleol.

Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ac ymgynghoriad hawdd ei ddeall:  
Cwestiwn 9: *Beth yw eich barn chi am ein syniadau am y pethau y dylai awdurdodau lleol eu gwneud i helpu i atal a datrys dadleuon?*

Roedd y rhan fwyaf a ymatebodd i'r fersiynau o'r ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc a hawdd ei ddeall yn cefnogi'r egwyddorion ynghylch yr hyn y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud mewn perthynas ag osgoi a datrys anghytundebau. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd y rheini a aeth i'r gweithdai ymgynghori â phlant a phobl ifanc a gyflwynwyd ar ran Llywodraeth Cymru<sup>31</sup>.

Roedd ambell ymatebwr yn teimlo na ddylai awdurdodau lleol orddibynnu ar y rhyngrwyd wrth ddarparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc gan na fydd yr adnoddau hyn ar gael i bawb.

---

<sup>31</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddiwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni*

**Cwestiwn 43 - Ydy'r gofynion a osodir ym Mhennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn briodol?**<sup>32</sup>

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 49.67%               | 75                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 27.81%               | 42                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 22.52%               | 34                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 151                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 158                    |

Ymatebodd 151 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 99 sylwadau ategol. Roedd y sylwadau ategol a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ddigon tebyg i'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 42. Yn gyffredinol, roedd pobl yn croesawu ac yn cefnogi'r ddyletswydd yn y Ddeddf ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth eirioli annibynnol i gefnogi a helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Fodd bynnag, fel ag yn achos cwestiwn 42, roedd pryderon gan rai ynghylch a yw'r Cod, o bosibl, yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn eu hunain, ac roeddent yn teimlo na fyddai hyn yn briodol oherwydd y potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau.

Roedd y mwyafrif yn teimlo y dylai'r Cod ei gwneud yn gwbl glir mai asiantaethau annibynnol ddylai ddarparu gwasanaethau eirioli. Aeth ambell un ymlaen i ddweud y dylai asiantaeth annibynnol sy'n darparu gwasanaeth eirioli fod wedi cyrraedd nod sicrwydd ansawdd a ddyfernir yn allanol er mwyn sicrhau bod ganddi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu cymorth cywir. Thema arall a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd hawliau unigolion i gael gwasanaethau eirioli drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ac ymgynghoriad hawdd ei ddeall:  
Cwestiwn 10 - Beth yw eich barn chi am ein syniadau am y pethau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud i wneud yn siwr fod eiriolwyr yn gallu gwneud y gwaith yn iawn?

Roedd y mwyafrif a ymatebodd i'r fersiynau o'r ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc a hawdd ei ddeall yn cefnogi'r syniad o gael unigolyn i siarad dros blant a phobl ifanc os nad oes modd datrys dadl. Roedd y gefnogaeth hon yn

<sup>32</sup> Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith bod camgymeriad yn fersiwn ar-lein a fersiwn Word y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Ailadroddwyd geiriad cwestiwn 42 yng nghwestiwn 43 (er bod y cwestiwn cywir yn y ddogfen ymgynghori). Mae'n bosibl, felly, bod hyn wedi effeithio ar yr ymatebion a ddaeth i law. Fodd bynnag, roedd sylwadau ategol y mwyafrif helaeth yn ymwneud â geiriad cywir cwestiwn 43.

adlewyrchu ymateb y rheini a aeth i'r gweithdai ymgynghori â phlant a phobl ifanc<sup>33</sup>.

Cododd ambell un bryderon tebyg i'r rheini a godwyd yn y prif ymgynghoriad mewn perthynas â sicrhau bod eiriolwyr yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn ennill y cymwysterau priodol, a bod y gwasanaeth yn cael ei reoleiddio.

| <b>Cwestiwn 44 - Ydy'r wybodaeth am apelau a'r broses apelau a nodir ym Mhennod 26 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?</b> |              |                                                                                   |                      |                        |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                                                                  |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                                                                | Ydy          |  | 46.43%               | 78                     |
| 2                                                                                                                                | Nac ydy      |  | 23.21%               | 39                     |
| 3                                                                                                                                | Ddim yn siwr |  | 30.36%               | 51                     |
|                                                                                                                                  |              |                                                                                   | wedi ateb            | 168                    |
|                                                                                                                                  |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 141                    |

Ymatebodd 168 o bobl i gwestiwn 44 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 92 sylwadau ategol. O'r rheini a ymatebodd drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', roedd llai na hanner yn teimlo bod yr wybodaeth ym Mhennod 26 yn briodol.

O'r rheini a wnaeth sylwadau ategol, roedd tua chwarter yn codi pwyntiau am yr amserlenni mewn perthynas â chyfnod datganiad achos neu'r amserlenni mewn perthynas â chydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys. Roedd y farn yn rhanedig. Roedd rhai'n nodi bod yr amserlenni yn rhy heriol i awdurdodau lleol, ac eraill o'r farn y dylid neu y gellid tynhau'r amserlenni. Roedd y rheini a ymatebodd i'r fersiwn i blant a phobl ifanc a rhai cyrff trydydd sector o blaid tynhau.

Roedd nifer yn teimlo bod angen eglurder pellach ar rai agweddau ar y canllawiau. Nododd rhai y dylai'r Cod gynnig cyfarwyddyd ac eglurder ynghylch y berthynas rhwng y prosesau apelio a phroses gwyno Gweithio i Wella y GIG.

<sup>33</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni*

**Cwestiwn 45 - Ydy'r wybodaeth am gyfeillion achos, yn cynnwys y dyletswyddau ar y Tribiwnlys i benodi a dileu ffrindiau achos, yn cael ei hegluro'n glir ym Mhennod 27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 59.51%               | 97                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 14.72%               | 24                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 25.77%               | 42                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 163                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 146                    |

Ymatebodd 163 o bobl i gwestiwn 45 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 54 sylwadau ategol. Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo bod yr wybodaeth ym Mhennod 27 wedi'i hesbonio'n glir. Fodd bynnag, nododd dros hanner y rheini a wnaeth sylwadau ategol y gallai'r canllawiau yn y bennod hon roi mwy o fanylion neu eglurder ar nifer o faterion. Cyfeiriwyd yn benodol at ganllawiau neu eglurder ynghylch pwy all wneud cais i fod yn gyfaill achos a sut y penderfynir bod unigolyn yn cael bod yn gyfaill achos; sut y penderfynir ynghylch galluedd plentyn; a'r gwahaniaethau neu'r berthynas rhwng cyfaill achos nac eiriolwr annibynnol.

**Cwestiwn 46 - Rhowch unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Os yw'ch sylwadau'n ymwneud â phennod neu baragraff penodol yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, nodwch hynny yn eich ymateb.**

Gwnaeth 155 sylwadau mewn ymateb i gwestiwn 46. Roedd 28 o'r sylwadau yn ymwneud â phenodau penodol, ac mae'r rheini wedi'u hystyried wrth grynhoi'r ymatebion mewn perthynas â'r cwestiynau ar y penodau hynny yn yr adroddiad hwn lle bo'n briodol. Yn ogystal, roedd yr ymatebion i gwestiwn 46 yn cynnwys sylwadau mwy cyffredinol ar amrywiaeth o themâu.

Gwnaed sylwadau, er enghraifft, am arddull y Cod, ac awgrymwyd ei fod yn hir a chymhleth. Er bod rhai yn teimlo bod angen iddo fod yn gynhwysfawr, ac yn ei ddisgrifio felly, roedd eraill yn teimlo bod hyn yn ei wneud yn llai hwylus i'w ddefnyddio, i weithwyr proffesiynol a hefyd i rieni, a galwyd am fersiwn o'r Cod ar gyfer rhieni yn benodol. Awgrymodd rhai hefyd y gellid cyhoeddi astudiaethau achos ac enghreifftiau mewn dogfen ategol ochr yn ochr â'r Cod, er mwyn darparu cymorth heb ychwanegu at hyd y ddogfen. Fel y nodwyd mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn mewn ymateb i gwestiynau eraill, gwnaed sawl cais am i eiriau penodol gael eu diffinio. Ailadroddodd sawl un bwyntiau a wnaed eisoes yn yr adroddiad hwn am eu pryderon am amserlenni'r Cod drafft a'r rheoliadau arfaethedig.

Defnyddiodd llawer gwestiwn 46 fel cyfle i godi pryderon am gyllid, goblygiadau o ran y gweithlu a chwestiynau gweithredu, a oedd yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd mewn ymateb i gwestiwn 62 ar effaith y cynigion (ac a grynhoir yn y rhan honno o'r adroddiad hwn). Gwnaeth sawl un sylwadau am ddarpariaeth Gymraeg a oedd yn gyson â'r themâu yn yr ymatebion i gwestiynau 63 a 64 ar y Gymraeg.

Roedd nifer o ymatebion tebyg gan golegau arbenigol annibynnol yn codi pryderon am y ffordd y mae'r Cod yn cyflwyno'r defnydd o ddarpariaeth arbenigol.

Daeth 273 o ymatebion i law ar ffurf testun rhydd fel rhan o ymgyrch a gydlynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Cymru i Blant Byddar mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn. Roedd yr ymatebion union yr un fath â'i gilydd. Prif ffocws yr ymgyrch oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc fyddar yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, drwy'r Cod, i allu cyrraedd eu potensial addysgol llawn. Roedd prif bwyntiau'r ymateb yn nodi'r angen i sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am ddrafftio a chydlynw CDUau wedi'u hyfforddi'n ddigonol a bod gweithwyr proffesiynol arbenigol yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau. Roedd yr ymgyrch hefyd yn codi pryderon ynghylch sut caiff templedi CDUau eu drafftio, a nodwyd bod angen i'r templed gynnwys manylion asesiadau dysgwr a disgrifiad o'r cymorth y gallai fod ei angen arno.

Er gwaethaf amrywiaeth eang o sylwadau a oedd yn cynnwys beirniadaeth a chynigion ar newidiadau i'r Cod, roedd sawl ymateb i'r cwestiwn hefyd yn cynnwys adborth cadarnhaol ynghylch manteision y system ADY newydd, gan gynnwys y ffocws ar roi'r lle canolog i'r unigolyn a gweithredu ar sail hawliau.

## **Crynodeb o'r ymatebion i Ran 2: Rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft Cymru**

### **Cwestiwn 47 - At ei gilydd, ydy'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn darparu prosesau a gweithdrefnau clir ar gyfer apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys Addysg?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 55.41%               | 82                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 13.51%               | 20                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 31.08%               | 46                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 148                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 161                    |

Ymatebodd 148 o bobl i gwestiwn 47 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 32 sylwadau ategol. Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo bod y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn darparu prosesau a gweithdrefnau clir ar gyfer apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys Addysg.

Yn y sylwadau ategol, awgrymodd rhai fod angen eglurder ynghylch agweddau penodol ar y broses. Cyfeiriwyd at y berthynas rhwng y broses apelio a phroses gwyno Gweithio i Wella y GIG; amserlenni o ran proses datganiad achos, yn benodol cyfnod datganiad achos i ymatebwyr; a'r gofynion a osodir ar gyrff y GIG.

### **Cwestiwn 48 - At ei gilydd, a fydd y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn galluogi'r Tribiwnlys Addysg i ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Byddant      |  | 44.93%               | 62                     |
| 2 | Na fyddant   |  | 10.87%               | 15                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 44.20%               | 61                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 138                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 171                    |

Ymatebodd 138 o bobl i gwestiwn 48 drwy ddweud 'byddant', 'na fyddant' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 44 sylwadau ategol. Roedd yna raniad gweddol

gyfartal rhwng y rheini a ddywedodd 'byddant' a'r rheini a ddywedodd 'na fyddant'.

Nid oedd ambell un yn meddwl y byddai'r prosesau a'r gweithdrefnau yn galluogi'r Tribiwnlys Addysg i ddelio ag achosion yn deg ac yn gyfiawn, gan nodi bod yr amserlenni yn heriol.

Roedd rhai yn teimlo bod angen eglurder ynghylch agweddau penodol ar y broses, gan gynnwys sut y caiff tystiolaeth a ddarperir gan gyrff y GIG neu asesiadau a gyllidir yn breifat eu hystyried, a'r disgwyliadau o ran y defnydd o wasanaethau datrys anghydfod lleol.

**Cwestiwn 49 - Ydy'r broses arfaethedig ar gyfer datganiadau achos (rheoliadau 12 i 15 a 19 i 21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?**

|   |              |                                                                                    | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |   | 50.78%               | 65                     |
| 2 | Nac ydy      |   | 7.03%                | 9                      |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 42.19%               | 54                     |
|   |              |                                                                                    | wedi ateb            | 128                    |
|   |              |                                                                                    | wedi hepgor          | 181                    |

Ymatebodd 128 o bobl i gwestiwn 49 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 19 sylwadau ategol. Roedd dros hanner y rheini a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn teimlo bod y broses arfaethedig ar gyfer datganiadau achos yn briodol; ychydig iawn oedd yn anghytuno.

Mynegodd ambell un eu cefnogaeth i'r dull o weithredu fesul cam a gynigiwyd mewn perthynas â phroses datganiadau achos. Gofynnodd eraill am eglurder pellach ar y broses, gan gynnwys yr amserlenni cysylltiedig.

Yr ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc: Cwestiwn 11 - *Beth yw eich barn chi ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio, pan fyddwch yn gofyn i farnwr benderfynu pwy sy'n iawn?*

Daeth 12 ymateb i law i gwestiwn 11 y ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc. Ar y cyfan, roedd y mwyafrif yn gefnogol i'r broses. Roeddent yn awgrymu y dylai'r broses fod mor fyr â phosibl ac y dylai fod gan y rheini oedd yn gwneud penderfyniadau y profiad priodol a pherthnasol.

Roedd pob un o'r plant a'r bobl ifanc a'r rhan fwyaf o'r rhieni a gymerodd ran yn y gweithdai ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gefnogol i'r broses<sup>34</sup>.

**Cwestiwn 50 - Ydy'r amserlenni arfaethedig ar gyfer pob parti yn y broses datganiadau achos (rheoliadau 12 i 15 a 19 i 21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn rhesymol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 45.45%               | 60                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 13.64%               | 18                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 40.91%               | 54                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 132                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 177                    |

Ymatebodd 132 o bobl i gwestiwn 50 drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 26 sylwadau ategol. Roedd yna raniad gweddol gyfartal rhwng y rheini a ddywedodd 'ydyn' a'r rheini a ddywedodd 'ddim yn siwr'. Nid oedd ambell un yn meddwl bod yr amserlenni arfaethedig ar gyfer pob parti yn y broses datganiadau achos yn rhesymol. Nododd rhai y byddai'r amserlen 4 wythnos arfaethedig i ymatebwyr gyflwyno datganiad achos yn heriol i awdurdodau lleol, a chwestiynodd ambell un degwch yr amserlen hon. Roedd ambell un yn teimlo bod yr amserlen hon yn briodol o gofio y bydd yr ymatebydd wedi gweld datganiad achos yr apelydd eisoes yn sgil y dull o weithredu fesul cam a gynigir ar gyfer y broses datganiadau achos.

Yr ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc: Cwestiwn 12 - Beth yw eich barn ynglŷn â faint o amser sydd gan blant, rhieni a phobl ifanc i ddweud wrth y barnwr ac i anfon yr achos at y barnwr?

Daeth 11 ymateb i law i gwestiwn 12 yr ymgynghoriad i blant a phobl ifanc. Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod yr amserlen yn dda neu'n deg. Roedd y farn a fynegwyd yn y sylwadau ategol yn gymysg - rhai yn teimlo bod yr amserlen yn rhy fyr ac eraill yn teimlo ei bod yn rhy hir.

Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif a gymerodd ran yn y gweithdai ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gefnogol i'r amserlen arfaethedig<sup>35</sup>. Roedd eu sylwadau yn debyg i'r rheini a fynegwyd gan y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc.

<sup>34</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

<sup>35</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

Yr ymgynghoriad ar gyfer plant a phobl ifanc: Cwestiwn 13 - Beth yw eich barn chi ynghlŷn â faint o amser fydd gan golegau ac awdurdodau lleol i anfon achos at y barnwr?

Daeth 11 ymateb i law i gwestiwn 13 yr ymgynghoriad i blant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif yn teimlo bod yr amserlen yn rhesymol.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r sylwadau ategol yn awgrymu na fyddai'r amserlen yn caniatáu digon o amser i'r awdurdod lleol neu'r coleg ymateb â'u tystiolaeth, neu ei bod yn annheg pennu amserlen fyrrach i awdurdodau lleol a cholegau nag i blant, pobl ifanc a rhieni.

Dim ond hanner y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithdai ymgysylltu<sup>36</sup> oedd yn gefnogol i'r amserlen arfaethedig, ac nid oedd mwyafrif y rhieni yn cefnogi'r cynnig. Roedd y rheini nad oeddent yn gefnogol i'r cynnig yn teimlo y dylai'r amserlenni fod yn fyrrach.

**Cwestiwn 51 - Ydy'r amserlen lle mae'n rhaid i gyrff y GIG adrodd i'r Tribiwnlys Addysg o fewn 6 wythnos i argymhelliad (rheoliad 65 o'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?**

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 48.18%               | 66                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 17.52%               | 24                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 34.31%               | 47                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 137                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 172                    |

Ymatebodd 137 o bobl i gwestiwn 51 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 45 sylwadau ategol. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod yr amserlen lle mae'n rhaid i gyrff y GIG adrodd i'r Tribiwnlys Addysg o fewn 6 wythnos i argymhelliad yn briodol.

Roedd ambell un yn teimlo nad oedd yn briodol. Mynegodd rhai fod yr amserlen yn heriol neu'n afrealistig i gyrff y GIG. Awgrymodd eraill y dylid ystyried a ellid tynhau'r amserlen hon er mwyn cyflymu'r broses er budd y plentyn neu'r person ifanc.

<sup>36</sup> Gweler Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni

### Cwestiwn 52 - Ydy'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys Addysg yn briodol?

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 51.97%               | 66                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 10.24%               | 13                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 37.80%               | 48                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 127                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 182                    |

Ymatebodd 127 o bobl i gwestiwn 52 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 26 sylwadau ategol. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod yr amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys Addysg yn briodol; ychydig iawn oedd yn teimlo nad oeddent yn briodol.

Roedd rhaniad gweddol gyfartal rhwng y rheini oedd yn teimlo y gallai'r amserlenni fod yn fyrrach a'r rheini oedd yn teimlo bod yr amserlenni yn heriol neu'n afrealistig. Nododd ambell un fod yr amserlenni yn gyson ag amserlenni eraill.


### Cwestiwn 53 - Ydy'r dull gweithredu mewn perthynas ag amserlenni (rheoliad 66 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

|   |              |                                                                                     | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-------------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydy          |  | 51.16%               | 66                     |
| 2 | Nac ydy      |  | 8.53%                | 11                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 40.31%               | 52                     |
|   |              |                                                                                     | wedi ateb            | 129                    |
|   |              |                                                                                     | wedi hepgor          | 180                    |

Ymatebodd 129 o bobl i gwestiwn 53 drwy ddweud 'ydy', 'nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 20 sylwadau ategol. Roedd hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y dull gweithredu mewn perthynas ag estyniadau i amserlenni yn briodol; ychydig iawn oedd yn teimlo nad oedd yn briodol.

O'r rheini a wnaeth sylwadau ategol, roedd rhai yn teimlo bod angen eglurder ar sut y dylid penderfynu ynghylch ceisiadau am estyniadau ac ym mha amgylchiadau y byddai'n rhesymol i berson neu gorff wneud cais am estyniad.

**Cwestiwn 54 - Ydy'r rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â chyfeillion achos (rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft 61 i 64) yn briodol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 56.56%               | 69                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 6.56%                | 8                      |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 36.89%               | 45                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 122                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 187                    |

Ymatebodd 122 o bobl i gwestiwn 54 drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 17 sylwadau ategol. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y rheoliadau arfaethedig ynghylch cyfeillion achos yn briodol; ychydig iawn oedd yn teimlo nad oeddent yn briodol.

O'r rheini a wnaeth sylwadau ategol, roedd rhai'n teimlo bod angen eglurder ynghylch sut yr asesir galluedd, ac ynghylch y meini prawf ar gyfer penderfynu a allai person fod yn gyfaill achos, gan gynnwys manylion penodol mewn perthynas ag aelodau teuluol.

## **Crynodeb o'r ymatebion i Ran 3: Y Rheoliadau Cydllynwyr ADY drafft**

| <b>Cwestiwn 55 - Ydy'r cymwysterau rhagnodedig i fod yn Gydlynnydd ADY a nodir yn y rheoliadau Cydllynnydd ADY drafft yn briodol?</b> |              |                                                                                   |                      |                        |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                                                                       |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                                                                     | Ydyn         |  | 49.70%               | 84                     |
| 2                                                                                                                                     | Nac ydyn     |  | 27.22%               | 46                     |
| 3                                                                                                                                     | Ddim yn siwr |  | 23.08%               | 39                     |
|                                                                                                                                       |              |                                                                                   | wedi ateb            | 169                    |
|                                                                                                                                       |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 140                    |

Ymatebodd 169 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn gwybod'. Gwnaeth 113 sylwadau ategol. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y cymwysterau ar gyfer bod yn CADY sydd wedi'u hamlinellu yn y rheoliadau CADY drafft yn briodol, er bod ambell un yn awgrymu y dylai pob CADY, o gofio elfen strategol y rôl, fod yn athro cymwysedig. Roedd llawer yn teimlo y dylid rhoi pwyslais mwy ar brofiad yn ogystal ag ar gymwysterau. Roedd rhai'n awgrymu y dylai CADY fod wedi bod yn athro am hyd at ddwy flynedd. Roedd rhai yn y sector addysg uwch yn awgrymu bod profiad o'r lleoliad ac o'r sgiliau perthnasol yn bwysicach na chymhwyster addysgu.

Roedd consensws ymhlith llawer y bydd angen hyfforddiant ar CADYau fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Awgrymodd ambell un y dylai CADYau ddilyn llwybr proffesiynol cenedlaethol sy'n arwain at gymhwyster a hyfforddiant penodol ym maes ADY. Yn gysylltiedig â hynny roedd yna awgrymiadau y dylai CADYau ddilyn hyfforddiant gorfodol yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn y rôl er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y gweithlu CADYau. Roedd ambell un yn teimlo hefyd y dylid ystyried hyfforddiant a phrofiad blaenorol.

Mae mwyafrif y themâu sy'n deillio o'r ymgynghoriad yn adlewyrchu sylwadau a wnaed gan lawer a gymerodd ran yng ngweithdai CADY digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru<sup>37</sup>

<sup>37</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddiwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ac ymgynghoriad hawdd ei ddeall:  
Cwestiwn 14 - Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig fod y Cydlynnydd  
Anghenion Dysgu Ychwanegol yn athro / athrawes neu'n rhywun sydd eisoes  
yn Gydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig?

Roedd cyfran fawr o'r rheini a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc a'r ddogfen ymgynghori hawdd ei deall hefyd yn cytuno bod y cymwysterau a nodwyd yn briodol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rheini a aeth i'r gweithdai i blant a phobl ifanc yn anghytuno.<sup>38</sup>

**Cwestiwn 56 - Ydych chi'n cytuno â'r tasgau y mae'n rhaid i Gydlynwyr ADY eu cyflawni neu drefnu i gael eu cyflawni yn y rheoliadau Cydlynnydd ADY drafft?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydw          |  | 60.12%               | 98                     |
| 2 | Nac ydw      |  | 20.25%               | 33                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 19.63%               | 32                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 163                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 146                    |

Ymatebodd 163 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn gwybod'. Gwnaeth 117 sylwadau ategol. Daeth themâu tebyg i'r amlwg yn yr ymatebion hyn i'r themâu a godwyd mewn ymateb i gwestiwn 41.

Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r tasgau y nodwyd yn y rheoliadau CADY drafft y bydd yn rhaid i CADYau eu cyflawni neu drefnu eu bod yn cael eu cyflawni. Awgrymodd ambell un nad oedd y tasgau yn wahanol iawn i dasgau Cydlynnydd AAA, er bod rhai yn awgrymu y gallai elfen strategol y rôl olygu cynnydd yn y llwyth gwaith. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau a wnaed gan lawer yng ngweithdai CADY digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol Llywodraeth Cymru<sup>39</sup>.

Tynnodd llawer sylw at y ffaith bod gallu CADYau i gyflawni'r tasgau yn ddibynnol ar gael digon o amser i ymgymryd â'r rôl. Nododd llawer y bydd maint lleoliad addysg a'r anghenion o fewn y lleoliad yn golygu bod CADYau yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, awgrymodd rhai sefydliadau addysg bellach y gallai CADYau ddibynnu ar dîm o bobl i'w cefnogi wrth gyflawni eu tasgau.

<sup>38</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni*

<sup>39</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddigwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid*

Awgrymodd ambell un dasgau ychwanegol i'r rhai a nodwyd yn y rheoliadau, gan gynnwys cysylltu'n gyson â gweithwyr proffesiynol arbenigol. Yn gysylltiedig â hyn, mynegwyd ambell bryder ynghylch sut y gall CADYau sicrhau gwasanaethau arbenigol lle nodwyd bod angen darpariaeth arbenigol.

Ymgynghoriad i blant a phobl ifanc ac ymgynghoriad hawdd ei ddeall:  
Cwestiwn 15 - Ydych chi'n meddwl mai'r pethau hyn yw'r pethau y dylai  
Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol eu gwneud i helpu plant a phobl  
ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol?

Roedd mwyafrif y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc, a phawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hawdd ei ddeall, yn cytuno â'r tasgau a nodwyd yn y Rheoliadau CADY drafft. Roedd pawb a aeth i'r gweithdai i blant a phobl ifanc yn cytuno. Roedd mwyafrif y rhieni yn y gweithdai hyn yn cytuno hefyd.<sup>40</sup>

---

<sup>40</sup> Gweler *Ymgynghoriad ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft – Crynodeb o'r adborth o ddiwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni*

## **Crynodeb o'r ymatebion i Ran 4: Plant sy'n derbyn gofal**

| <b>Cwestiwn 57 - Ydych chi'n cytuno y dylai rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal fod yn rôl statudol?</b> |              |                                                                                   |                      |                        |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
|                                                                                                                       |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
| 1                                                                                                                     | Ydw          |  | 75.31%               | 122                    |
| 2                                                                                                                     | Nac ydw      |  | 4.94%                | 8                      |
| 3                                                                                                                     | Ddim yn siwr |  | 19.75%               | 32                     |
|                                                                                                                       |              |                                                                                   | wedi ateb            | 162                    |
|                                                                                                                       |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 147                    |

Ymatebodd 162 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 49 sylwadau ategol. Roedd y nifer a oedd yn cytuno y dylai rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal fod yn rôl statudol yn sylweddol fwy na'r nifer nad oedd yn cytuno, ond nid oedd rhai yn siwr neu nid oeddent am ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

O'r rheini a oedd yn cytuno, nododd nifer sylweddol y byddai gwneud y rôl yn statudol yn sicrhau cysondeb ledled Cymru, a nododd rhai y dylid ystyried pennu disgwyliadau sylfaenol ar gyfer y rôl, er enghraifft cymhwyster a hyfforddiant gorfodol ar lefel genedlaethol. Nododd rhai ei bod yn bwysig amlinellu'r rôl hon yn glir yn y Cod ADY ac yn y Cod Rhan 6.

Cwestiynwyd y cymorth oedd ar gael, gan gynnwys cymorth ariannol, gan yr ychydig rai a wnaeth sylwadau a oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siwr. Roedd nifer fach yn anghytuno â chynnwys elfen ADY o fewn y rôl, ond roedd eraill yn teimlo y dylai'r rôl fod yn ehangach nag addysg, gan ddechrau gyda phlant cyn-ysgol.

**Cwestiwn 58 - Ydych chi'n cytuno y dylai fod ffurflen safonol ar wahân ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ydy'r ffurflen safonol arfaethedig, ynghyd â'r canllawiau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â hi, yn briodol?**

|   |                   |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|-------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydw ac ydy        |  | 44.81%               | 69                     |
| 2 | Nac ydw a nac ydy |  | 24.68%               | 38                     |
| 3 | Ddim yn siwr      |  | 30.52%               | 47                     |
|   |                   |                                                                                   | wedi ateb            | 154                    |
|   |                   |                                                                                   | wedi hepgor          | 155                    |

Ymatebodd 154 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydwy/ydy', 'nac ydw/nac ydy' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 62 sylwadau ategol.

Rhoddwyd sawl rheswm gan y rheini a oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siwr y dylid cael ffurflen safonol wahanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Un rheswm cyffredin dros anghytuno oedd y dylid trin plant sy'n derbyn gofal yn yr un ffordd â phlant nad ydynt yn derbyn gofal ac, felly, y dylid defnyddio'r un ffurflen ar gyfer pob plentyn. Awgrymodd rhai y byddai cwblhau ffurflen wahanol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn effeithio ar lwyth gwaith. Awgrymodd rhai hefyd y dylid defnyddio proffil un dudalen fel atodiad i'r CDU, yn hytrach na defnyddio ffurflen wahanol.

O ran y rheini a oedd yn cytuno ac a wnaeth sylwadau ategol, nododd rhai fod ffurflen wahanol yn briodol gan fod gan blant sy'n derbyn gofal angen sydd ar lefel arall y dylid darparu ar ei gyfer. Roedd rhai o'r farn y byddai ymgorffori'r CDU a'r Cynllun Addysg Personol (CAP) yn codi proffil y CAP, ac yn cynnig cysondeb, gan leihau gorgyffwrdd a dyblygu. Fodd bynnag, mynegodd nifer o'r rhai oedd yn cytuno bod yn well ganddynt gadw'r proffil un dudalen.

**Cwestiwn 59 - Ydy'r diwygiadau drafft i'r Cod Rhan 6 yn rhoi esboniad clir o'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY a beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei olygu yn ymarferol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 48.89%               | 66                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 9.63%                | 13                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 41.48%               | 56                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 135                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 174                    |

Ymatebodd 135 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 32 sylwadau ategol.

Roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno nag a oedd yn anghytuno bod y diwygiadau drafft i'r Cod Rhan 6 yn rhoi esboniad clir o'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY a beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei olygu yn ymarferol. Fodd bynnag, nid oedd cyfran sylweddol o'r rheini a atebodd y cwestiwn hwn yn siwr ynghylch y mater hwn.

Ymhlith y rheini a oedd yn cytuno ac a wnaeth sylwadau ategol, roedd gan rai gwestiynau pellach am yr wybodaeth a ddarparwyd, gan gynnwys cwestiynau am y cyfrifoldebau dros bobl ifanc mewn addysg ôl-16. Er eu bod yn cytuno, cododd rhai bryderon am yr effaith ar rôl Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal.

Ymhlith y rheini a oedd yn anghytuno neu nad oedd yn siwr, roedd llawer a wnaeth sylwadau yn gofyn am eglurder pellach ar faterion penodol, unwaith eto yn sôn am rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'i waith o ran llenwi CDUau, ac yn sôn hefyd am y gwahaniaethau yn y diffiniad o blentyn sy'n derbyn gofal rhwng Deddf 2014 a'r Cod Rhan 6 drafft.

**Cwestiwn 60 - Yn gyffredinol, ydych chi'n cytuno â'r dull a ddefnyddir yn y fersiwn ddrafft o'r Cod Rhan 6 diwygiedig i egluro'r newidiadau deddfwriaethol, yn cynnwys integreiddio cynlluniau addysg personol a CDU a chynnwys gorfodol cynlluniau addysg personol? Ydy'r gofynion a'r disgwyliadau a'r hyn maent yn ei olygu yn ymarferol yn cael eu hesbonio'n glir?**

|   |                    |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydw ac ydyn        |  | 53.62%               | 74                     |
| 2 | Nac ydw a nac ydyn |  | 11.59%               | 16                     |
| 3 | Ddim yn siwr       |  | 34.78%               | 48                     |
|   |                    |                                                                                   | wedi ateb            | 138                    |
|   |                    |                                                                                   | wedi hepgor          | 171                    |

Ymatebodd 138 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydw/ydyn', 'nac ydw/nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 33 sylwadau ategol. Roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno â'r dull a ddefnyddir yn y fersiwn ddrafft o'r Cod Rhan 6 diwygiedig i egluro'r newidiadau deddfwriaethol nag a oedd yn anghytuno, er nad oedd nifer yn siwr ynghylch y mater.

O'r rheini a oedd yn cytuno ac a wnaeth sylwadau ategol, mynegodd y rhan fwyaf eu bod yn cytuno ag egwyddor integreiddio'r CAPau a'r CDUau yn hytrach nag â'r dull a ddefnyddir i egluro'r newidiadau deddfwriaethol.

Gofynnodd llawer o'r rheini a wnaeth sylwadau ategol ac a oedd yn anghytuno neu nad oeddent yn siwr am eglurder ynghylch rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r gofyniad am CAPau a CDUau ôl-16.

Cynigiwyd cael templed cenedlaethol ar gyfer CAPau gan sawl ymatebydd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn a chwestiynau eraill am blant sy'n derbyn gofal. Cynigiwyd hyn gan Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ei bod yn cytuno y dylai CAPau gynnwys elfen orfodol ac y byddai cael templed cenedlaethol o gymorth i sicrhau cysondeb cynnwys ledled Cymru.

**Cwestiwn 61 - Ydy'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cod Rhan 6 yn egluro rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn glir o ran goruchwyllo'r trefniadau ADY ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?**

|   |              |                                                                                   | Y ganran a ymatebodd | Y cyfanswm a ymatebodd |
|---|--------------|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------|------------------------|
| 1 | Ydyn         |  | 38.81%               | 52                     |
| 2 | Nac ydyn     |  | 17.16%               | 23                     |
| 3 | Ddim yn siwr |  | 44.03%               | 59                     |
|   |              |                                                                                   | wedi ateb            | 134                    |
|   |              |                                                                                   | wedi hepgor          | 175                    |

Ymatebodd 134 o bobl i'r cwestiwn hwn drwy ddweud 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siwr', a gwnaeth 32 sylwadau ategol.

Roedd y rheini a oedd yn cytuno ac a wnaeth sylwadau ategol yn teimlo bod y newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Cod Rhan 6 sy'n ymwneud â rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn glir, a'i bod yn bwysig i ysgolion ddeall rôl y Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a sut y gallant gefnogi'r ysgolion hynny sydd â phlant sy'n derbyn gofal.

Ymhlith y rheini a oedd yn anghytuno neu nad oedd yn siwr ac a wnaeth sylwadau ategol, roedd rhai'n pryderu y bydd llwyth gwaith y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynyddu. Roedd rhai'n galw am fwy o gysondeb yn rôl Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, gan bennu rolau a chyfrifoldebau clir a disgwyladau gofynnol. Roedd rhai'n pryderu y bydd pobl lai cymwys yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag ADY ar ran plant sy'n derbyn gofal. Awgrymodd nifer y dylai'r Cod Rhan 6 gynnwys adran ar rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, yn debyg i'r adran ar rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol.

## **Crynodeb o'r ymatebion i Ran 5: Effaith y cynigion**

### **Cwestiwn 62 - Pa effaith ydych chi'n rhagweld o ganlyniad i'r rheoliadau arfaethedig?**

Gwnaeth 160 sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau gwahanol iawn.

Ymhlith yr effeithiau cadarnhaol a awgrymwyd roedd creu system sydd o bosibl yn fwy cyson, yn fwy integredig, yn llai biwrocraidd ac, yn y pen draw, yn fwy effeithiol o ran sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr. Roedd rhai yn teimlo y dylai mabwysiadu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, rhoi gwell hawliau i unigolion, ac annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan fwy mewn penderfyniadau, arwain at newid yn niwylliant lleoliadau addysgol, gan sicrhau DDdY fwy hyblyg, creadigol sydd wedi'i theilwra. Roedd eraill o'r farn y dylai creu rolau statudol a strategol newydd ym maes addysg ac iechyd helpu i ddatblygu prosesau mwy effeithlon.

Mynegodd nifer sylweddol bryder ynghylch effaith ariannol y cynigion a chwestiynwyd a oedd lefel gyfredol y cyllid yn ddigon i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol a gweithredu'r system newydd arfaethedig. Codwyd effaith negyddol dybiedig y system newydd ar lwyth gwaith cyfredol cydlynwyr AAA, timau ADY/AAA awdurdodau lleol, seicolegwyr addysg, staff sefydliadau addysg bellach a gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml hefyd. Roedd rhai yn teimlo y gallai llwyth gwaith a chyfrifoldebau CADYau yn benodol arwain at anawsterau o ran recriwtio a chadw staff.

Roedd rhai o'r farn y gallai'r berthynas rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach a phlant, eu rhieni a phobl ifanc ddod â'i heriau yn sgil disgwyliadau afrealistig na chânt eu bodloni. Teimlai rhai y gallem weld cynnydd yn yr apelau i'r Tribiwnlys. Awgrymwyd hefyd y gallem weld mwy o anghytundebau rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch creu DDdY a llai o gyngor annibynnol a diduedd yn cael ei gynnig i rieni.

Roedd rhai o'r gwasanaeth iechyd yn pryderu y gallai'r system newydd ei gwneud yn ofynnol iddynt roi blaenoriaeth i blant a phobl ifanc ag ADY ar draul grwpiau eraill. Roedd rhai o'r awdurdod lleol, ar y llaw arall, o'r farn y gallent eu cael eu hunain yn cyllido mwy o driniaethau a gwasanaethau iechyd yn y pen draw (yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion a wneir gan therapyddion preifat) gan nad yw'r Tribiwnlys yn gallu gorchymyn i gyrff y GIG wneud hynny.

Roedd ambell un o'r farn y bydd cyfran y plant mewn ysgolion y nodir bod ganddynt AAA/ADY yn disgyn. Yn benodol, cwestiynwyd a fydd y rheini sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol ar hyn o bryd yn cael eu hystyried fel rhai ag ADY o dan y system newydd. Roedd rhai yn teimlo y gallem weld anghysondeb rhwng ysgolion mewn perthynas ag adnabod ADY a phenderfynu yn ei gylch.

Awgrymwyd hefyd y gallai'r cyfnod trosglwyddo, a chymhlethdodau rhedeg dwy system wahanol ar yr un pryd, fod yn arbennig o anodd i'w rheoli, gan greu cyfnod ansicr.

**Cwestiwn 63 - Pa effaith y byddai'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig yn ei chael ar y Gymraeg yn eich barn chi?**

Gwnaeth 115 sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Roedd tua hanner o'r farn y gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol, ond mynegodd llawer bryderon hefyd ynghylch gallu gwasanaethau i weithredu drwy'r Gymraeg a chynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg lle bo'n ofynnol. Roedd rhai yn ystyried bod angen cryfhau'r cynigion mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn cael effaith gadarnhaol. Roedd rhai yn teimlo na fyddai'r cynigion yn cael llawer o effaith ar y Gymraeg, os o gwbl.

**Cwestiwn 64 - Sut ydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn:**

- i. cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?;
- ii. sicrhau nad oes effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Gwnaeth 73 sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau digon o weithwyr proffesiynol o fewn byd addysg a'r tu allan iddo, sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod adnoddau, cyfleusterau asesu a thechnoleg ar gael yn yr iaith yn hytrach na newidiadau penodol i'r Cod drafft neu'r rheoliadau arfaethedig.

Awgrymwyd nifer o newidiadau penodol i'r Cod drafft gan unigolion, ee cynnwys pennod benodol ar gyflwyno'r system ADY drwy'r Gymraeg, neu wneud gwelliannau er mwyn cysylltu ystyriaeth awdurdod lleol o ddigonolrwydd DdY â'r ddyletswydd i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac, yn benodol erthygl 30 (sy'n ymwneud â hawl plant cynhenid neu o gefndir lleiafrifol i ddysgu am eu diwylliant, eu hiaith a'u crefydd, a'u dilyn/defnyddio).

**Cwestiwn 65 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi cyfeirio'n benodol atynt, nodwch nhw fan hyn.**

Gwnaeth 59 sylwadau pellach mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Codwyd amrywiaeth eang o faterion. Soniwyd am ymdeimlad o angen i wella elfen ADY Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon; ceisiadau i ystyried ymhellach sut i weithredu'r system newydd, a chanllawiau cysylltiedig; a phryderon ynghylch cyllid, capasiti staffio a goblygiadau adnoddau mewn perthynas â'r cynigion. Codwyd cwestiynau hefyd am berthynas y system newydd â'r dyletswyddau presennol o ran cydraddoldeb; rôl seicolegwyr addysg a chonsortia addysg o fewn y system ADY; ei pherthynas â dysgu seiliedig ar waith, a phlant a phobl ifanc y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

## **Atodiad A: Dadansoddiad o'r ymatebion fesul cwestiwn**

■ Ie ■ Na ■ Ddim yn siwr

Cwestiwn 1 - Ydy'r esboniad ym mharagraffau 1.10 -1.16 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY o ddefnydd ac ystyr y gwahanol dermau rhaid, ni chaiff, caiff, dylai ac ni ddylai yn glir?



Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau (hynny yw, gweithredu'n brydlon a, ph'un bynnag, o fewn cyfnod penodol), fel yr eglurir ym mharagraffau 1.31 - 1.32 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?



Cwestiwn 3 - Ydy'r eithriad cyffredinol sy'n gymwys yn achos amserlenni, fel y'i disgrifir ym mharagraffau 1.33-1.35 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, yn briodol?




Cwestiwn 4 - Ydy strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r modd mae'r Penodau wedi'u rhannu yn briodol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall?



Cwestiwn 5 - Ydy ffocws y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar ddisgrifio ac egluro'r swyddogaethau a phrosesau yn briodol?



Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio rheoliadau i ddirprwyo swyddogaethau o awdurdod lleol i Bwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion?



Cwestiwn 7 - Ai'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yw'r rhai cywir?



Cwestiwn 8 - Ydy'r esboniad o'r dyletswyddau'n ymwneud â chynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc a roddir ym Mhennod 3 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?



Cwestiwn 9 - Ydy Pennod 4 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir am y disgwyliadau ar awdurdodau lleol a chyrrff y GIG wrth gyflawni eu dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau?



|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cwestiwn 10 - Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 5 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â'r dyletswyddau i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn briodol?                                                                                                                                                           |
| 65.78% 13.90% 20.32%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 11 - Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 6 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â gwneud trefniadau i roi cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY yn briodol?                                                                                                                                                        |
| 61.81% 22.61% 15.08%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 12 - Ydy'r esboniad hwn o ADY a roddir ym mharagraffau 7.4 – 7.32 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?                                                                                                                                                                                                                        |
| 40.28% 44.08% 15.17%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 13 - Ydy Pennod 7 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi esboniad clir a chynhwysfawr o'r dystiolaeth a ddylai fod yn sail i benderfyniadau am ADY a DDdY, o ba ffynonellau y gellid coladu'r dystiolaeth hon, a sut y dylid ei hystyried?                                                                                       |
| 40.00% 40.50% 19.00%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 14 - Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y Swyddog Arweiniol ADY Blynnyddoedd Cynnar a nodir ym mharagraffau 8.40 - 8.47 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn strategol a bod gan y cyfryw swyddogion y profiad a'r arbenigedd priodol i fodloni disgwyliadau'r rôl)? |
| 51.53% 18.40% 30.06%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 15 - Ydy strwythur a chynnwys Penodau 8 i 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?                                                                                                                                                                                                                                             |
| 56.32% 25.29% 18.39%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 16 - Ydy'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau gan ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol ar ADY a pharatoi CDU fel y'u nodir ym Mhenodau 8-12 yn briodol?                                                                                                                                                                            |
| 33.33% 37.50% 28.65%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 17 - Ydy'r gofynion a chanllawiau arfaethedig ym mharagraffau 12.22 – 12.51 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ynghylch pryd mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu SAB yng Nghymru yn briodol?                                                                                 |
| 39.62% 25.16% 35.22%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 18 - Ydy elfennau cynnwys gorfodol CDU sy'n ofynnol o dan y Cod ADY yn briodol?                                                                                                                                                                                                                                                 |
| 59.79% 20.10% 20.10%                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Cwestiwn 19 - Ydy'r ffurflen safonol orfodol sydd mewn golwg ar gyfer CDU (wedi'i chynnwys yn Atodiad A y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?                                                                                                                                                                                       |
